

ECO'R WYDDFA

RHIF 388

MAI 2011

PRIS 50c

YN Y RHIFYN HWN:

- Teithiau Cerdded Yr Oes Haearn
- 'Dissolving Views'
- Teithiau Gerddi

PLANT Y FRO YN RHAN O'R GORESGYNIAD



Ar Sadwrn godidog o braf, daeth torf o chwe mil o blant i hawlio strydoedd a chastell Caernarfon yn jambori fawr cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd 2011. Yr oedd cynrychiolaeth o bob ysgol gynradd ac adran bentref o'r fro yn y neidr filiroed liwgar a ddawnsiodd vi ffordd i gyfeiliant Band Llanrug a Band Samba o facs parcio Morrison's i mewn drwy borth traf gwroeg Caernarfon a hawlio'r castell am y diwrnod. Welodd Caernarfon ddim byd rebyg ers blyneddoddd, ac yr oedd yn codi calon rhywun o sylweddoli fod dyfodol Cymricod y fro hon yn gadarn ddigon yn nwylo'r ieuencid hyn.



LLEISIO "WMFF"

Yn dilyn ymweliadau a chynnal clyweliadau mewn nifer o ysgolion cynradd gan Sian Teifi o Gwmni Sianco, cafodd Heledd Prys o Ysgol Gynradd Bethel ei dewis i ail-leisio'r prif gymcriad o'r animeiddiad 'Humf' i'r Gymraeg. Enw'r gyfres yn y Gymraeg yw 'Wmff' a darlledir y rhaglen gyntaf ar CYW ar Ebrill 25ain. Mac 78 o raglenni, felly mac Heledd wrthi'n ddiwyd iawn ar hyn o bryd ac yn cael llawer o hwyl wrth recordio'r rhaglenni gyda Sian Teifi yn Caban, Brynrefail yn ystod y penwythnosau.

ECO'R WYDDFA

RHIF 388

MAI 2011

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com

neu
Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu:
ecorwyddfa@gmail.com

**CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH**
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-V-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-V-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (850570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL, 15 MAI
Os gwelwch yn dda.
Dyddiad Gosod
NOS SUL, 20 MAI
Sefydliad Coffa Llanrug
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 26 MAI

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2011

Rhifyn	Copi	Gosod	Plygu	Ble
Mehefin	Mai 15	Mai 22	Mai 26	Brynrefail

Llythyr

CASGLU CARDIAU SIGARÉTS

Annwyl Ddarllenwyd,
Yn ystod yr 1880au cafodd
rhywun yn yr Amerig y syniad o
roi cerdyn â llun arno mewn
paced o sigarets. Fel arfer roedd
hwn yn un o set o hanner cant
ac roedd yn cymell y smociwr i
brynu mwy er mwyn cwblhau'r
set. Ychydig flynyddoedd yn
ddiweddarach gwelwyd y
cerdyn cyntaf mewn paced
sigarets W.D. & H.O. Wills ym
Mhrydain ac roedd yr hobi o
gasglu cardiau wedi cychwyn sef
'Cartophily' fel y'i gelwir.
Rhwyng 1917 a 1922 ni welwyd
cardiau yn y pacedi oherwydd
prinder deunydd.

Gyda dyfodiad yr Ail Ryfel
Byd rhoddwyd y gorau unwaith
eto i'r arferiad ac yn anffodus
dyna ddiwedd, mwy neu lai, ar y
cerdyn sigaret. Dros y
blynyddoedd gwelwyd nifer o
gwmniau yn cyhoeddi
cannoedd o setiau ar wahanol
bynciau - ymysg y rhai mwyaf
poblogaidd roedd pêl-droed,
criced, milwrol, arwyr y sgrin
fawr a.y.y.b. Cydiodd yr hobi
ynof fi yn ystod y 1950au pan
gafwyd cardiau pêl-droedwyr
mewn paced o gwm cnoi. Yn
ystod y 1960au daeth cardiau
canwyr pop fel y Beatles a'r
Rolling Stones yn boblogaidd.

Os oes unrhyw un â chardiau
o'r fath yn eu meddiant ac yn
dymuno eu gwerthu am bris teg
byddwn yn falch o glywed
ganddynt. Fy rhif ffon yw 01248
670712.

Yn gywir, Emyr Jones

TEITHIAU CERDDED YR OES HAEARN

Annwyl Ddarllenwyd,
Dros y ddwy flynedd ddiwethaf
cefaif fy nghomisiynu i greu
nifer o fapiau cerdded a
darganfod hanes lleol yn Arfon.
Ar hyn o bryd rwyf yn paratoi
taflen debyg i ardal
Llanengan/Abersoch. Daeth y
rhain i sylw Cwmni Vodafone, a
chefais fy nhalu gan y cwmni i
dreulio dau fis gyda Sefydliad
Prydeinig y Galon i hyrwyddo
cerdded er lles iechyd ac i
ddarganfod hanes yr un pryd.
Rwyf yn trefnu cyfres o deithiau
cerdded sy'n dilyn gweddillion
ac olion o'r Oes Haearn. Bydd
pedair taith i gyd; yn Llŷn, yng
Nghonwy, ar Ynys Môn ac yn
Arfon.

Dyddiad taith Arfon fydd
Sadwrn, Mai 28ain. Bydd y
daith gyflawn yn cychwyn o'r
Gors Bach, Llanddeiniolen ac
yn anelu am Beran. Yna i lawr
am Bentir ac ymlaen am
Dregarth, Rachub, Talybont,
Llandygai a diweddu'n y Garth,
Bangor. Byddwn yn ymweld â
safleoedd yr Oes Haearn ar y
daith ac yn ceisio dyfalu pa
lwybr y byddai pobl yr oes
honno wedi ei ddilyn.

Mae croeso i unrhyw un ymuno
daith neu â rhannau o'r daith.
Gallwch dderbyn yr her o'i
cherdded i gyd, neu gerdded
milltir neu ddwy yn unig. Nid
oes pwysau ar neb i gasglu arian
at Sefydliad Prydeinig y Galon,
ond mae croeso a diolch i chwi
os gwnewch hynny.

Am ragor o fanylion a ffurflenni

RHODDION

£20: Alwyn a Mair Williams,
Seion; Er cof am Mr Percy
Jones, Y Berllan, Llanberis.

£13: Mrs A. Sidebotham,
Stockport.

£10: Llew ac Avril Pritchard,
Stryd Fawr, Llanberis;
Margaret Griffiths, 2 Bryn
Teg, Llanberis; Gwyn a Mai
Davies, Llanrug; Rita a'r
genod, Tan y Cae, Bethel; Er
cof am Bryngwyn Williams,
Rhiwlas.

£8: Nancy Parry, Penygroes;
Gwilym Ellis, Llandrindod;
J. Evans Hughes, Kirby
Muxloe; Rhiannwen
Griffith, Y Drenwydd.

£5: Mari Wyn, Tal y Bont
Llanrug; Geraint Huws
Roberts, Bangor; Ian a
Claire, teulu Peris View,
Llanberis; Teulu'r diweddar
Olwen Roberts, Stryd y
Faenol, Llanberis; Mr a Mrs
Arthur Rowlands, 17
Rhydfadog, Deiniolen;
Kimberley Owen, Deiniolen.
Mr Iolo Llywelyn; Parchedig
Dafydd Hughes.

noddi yna cysylltwch â mi mor
fuan â phosibl. Gyda diolch,
Gareth Roberts,
Frondeg,
Gallt y Foel,
Deiniolen, LL55 3EF
01286 872462
neu garmel@fsmail.net

COFIWCH DDWEUD EICH DWEUD

Gydag etholiadau Cynulliad
Cenedlaethol Cymru a'r
refferendwm ar y system
bleidleisio ar gyfer etholiadau
seneddol y Deyrnas Unedig yn
cael eu cynnal ar 5 Mai 2011,
mae'n bwysig fod pobl yn
cofrestru ar gyfer pleidleisio.

Os nad ydych ar y gofrestr
etholwyr ac eisiau pleidleisio yn
etholiadau Cynulliad
Cenedlaethol Cymru a'r
refferendwm ar y system
bleidleisio ar gyfer etholiadau
seneddol y Deyrnas Unedig a
fydd yn cael eu cynnal ar 5 Mai
2011, mae'n rhaid eich bod wedi
cofrestru erbyn 5pm ar ddydd
Iau, 14 Ebrill 2011.

Dywedodd Dilys Phillips,
Swyddog Cofrestru Etholiadol
Cyngor Gwynedd:

'Rwy'n annog pawb i sicrhau
eu bod wedi cofrestru fel y
gallant gymryd rhan yn y broses
ddemocrataidd - heb bleidlais
does gennych chi ddim llais.
Mae sicrhau fod gennych
bleidlais yn 2011 yn rhwydd
iawn.'

Am fwy o wybodaeth am
gofrestru i bleidleisio yng
Ngwynedd, cysylltwch â'r
Cyngor ar 01766 771000 neu i
www.gwynedd.gov.uk/etholiad
neu www.fymhleidlaisi.co.uk

Dros 50? Medrwyh ymddiried yng Nghynnyrch a Gwasanaethau

 YSWIRIANT CARTREF

 NWY A THRYDAN

 YSWIRIANT CAR

 CYNLLUNIAU ANGLADD

 YSWIRIANT TEITHIO

 GWYLIAU

 GWASANAETH LARWM
PERSONOL

 YSWIRIANT RHAG
TORRI I LAWR

Darperir yr Yswiriant Cartref, Car a Theithio gan Fortis Insurance Limited.
Darperir yr Yswiriant Rhag Torri i Lawr gan Europ Assistance Holdings Limited.

I gael mwy o fanylion ymwelwch
â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn,
Ty Seiont, Ffordd,
Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Tel: 01286 678310

neu ffoniwch: 0800 085 3741
neu ymwelwch â:

www.ageconcern.org.uk/products

**AGE
Concern**

Age UK yw'r grym newydd sy'n uno Age Concern a Help the Aged. Mae teulu Age UK
yn cynnwys Age Scotland, Age Cymru ac Age NI.
Age Concern Enterprises Limited, Astral House, 1268 London Road, SW16 4ER

ACOWAL880V2JUL10_CS024825_10

HELFA DRYSOR FFOTOGRAFFAETH LLANBERIS

Yn ystod yr Ŵyl Ffilmiau Mynydd yn Llanberis dyfeisiwyd helpa drysor wahanol gan y ffotograffydd Gareth Roberts. Yr her oedd i deuluoedd a'u plant ddilyn llwybr o amgylch y pentref a dyfalu ble tynnwyd hen luniau. Yna, tynnu llun o'r safleoedd fel ac y maent heddiw. Roedd y daith yn rhan o ymgyrch Gareth i gael pobl i gerdded a darganfod.

Daeth bron i ddeg ar hugain o deuluoedd ac unigolion i roi cynnig ar yr helpa drysor, gyda nifer helaeth yn cael pob un o'r atebion yn gywir. Er mwyn didoli'r enillwyr, roedd angen tynnu'r llun gorau o Gastell Dolbadarn. Grace Wooden o Ysgol Dolbadarn ddaeth yn fuddugol, a Jay Clough o Ysgol Cwm y Glo yn ail.

Yn dilyn llwyddiant yr helpa, gobaith Gareth yw cynllunio teithiau cyffelyb mewn pentrefi eraill.



Grace Wooden yn derbyn ei gwobr gan Sally Ellis, Trefnydd yr Ŵyl Ffilmiau a Mr Rolant Wynne, prifathro Ysgol Dolbadarn. Enillodd £15 gan Delweddau Gareth Roberts ac £20 i'w wario yn siop Joe Brown.



Jay Clough yn derbyn ei wobwr gan Mr Gareth Jackson, prifathro Ysgol Cwm y Glo. Enillodd £5 gan Delweddau Gareth Roberts a £10 i'w wario yn siop Joe Brown.

GŴYL FFIDIL YR WYDDFA NANT PERIS, 11 Mehefin 2011

Mae'n anodd credu, ond 2011 fydd wythfed flwyddyn Gŵyl Ffidil yr Wyddfa, a gynhelir yn Nant Peris bob Mehefin. Tyfodd yr ŵyl o'r clwb ffidil lleol, Clwb Ffidil yr Wyddfa; y bwriad oedd codi ymwybyddiaeth o chwarae ffidil traddodiadol yn yr ardal, rhoi llwyfan i'r cyfoeth o gerddoriaeth ffidil Gymreig, a rhoi siawns i ni glywed a dysgu gan brif ffidlwyr traddodiadol gwledydd craill. Bellach mae'r ŵyl wedi dod yn rhan annatod o galendr digwyddiadau yr ardal ac mae'n adnabyddus ledled Cymru am gerddoriaeth o'r radd flaenaf yn ogystal â'i naws croesawgar, cynnes.

Mae'r dathlu yn cychwyn nos Wener gyda sesiwn agored yn ystafell gefn glyd y Vaynol Arms. Yn ystod y dydd Sadwrn bydd gweithdai ffidil ar gyfer pob safon gan gynnwys siawns i drio'r ffidil am y tro cyntaf, gweithdy gitâr a chyfle i'r rhai mentrus brofi'r crwth a'r llif gerddorol!

Un o uchafbwyntiau'r ŵyl ydi'r cyngerdd meic-agored yn nhafarn y Vaynol Arms amser cinio, lle clywir perfformwyr o bob oedran a safon, ac bydd

sesiwn werin drwy'r prynhawn gyda chroeso i bawb ymuno. Caiff y rhai egniol dro ar ddawns y gloesen a bydd gweithgareddau i blant megis sioe bypedau. Lleolir y cyngerdd gyda'r nos yn eglwys hynafol Sant Peris, sydd ar ei newydd wedd wedi'r gwaith atgyweirio, am 7.30.

Ymysg yr artistiaid eleni bydd Paul Anderson, sydd yn arbenigo yng ngherddoriaeth bro ei mebyd, sef gogledd-ddwyrain yr Alban. Mae Paul yn un o brif ffidlwyr yr Alban ac yn gallu olrhain ei achau athrawon ffidil hyd at Niel Gow, tad cerddoriaeth ffidil yr Alban.

O Ddilyn daw Imogen Gunner, ffidlwraig ifanc benigamp a ddisgrifiwyd yn ddiweddar fel 'An exceptional musician and a superb interpreter of traditional music' (Rock n Reel). Yn ymuno â hi bydd ei grŵp, yr Imoband, sydd yn adnabyddus am eu hegri, eu trefniannau gwreiddiol a'u gallu cerddorol.

Cawn glywed gorau ffidlo Gogledd Cymru hefyd gan Over the Moon, triawd newydd yn cynnwys y chwiorydd o Gonwy, Catrin a Ceri Ashton a'u ffrind Richard Harding - heb anghofio, wrth gwrs, y ffidlwyr lleol Clwb Ffidil yr Wyddfa! Byddwch yn barod am ambell citem syrpreis yn y cyngerdd hefyd...

Dewch a mwynhewch!

Am docynnau a mwy o fanylion ewch at www.gwylffidil.info neu ffoniwch 01286 871042



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williams@parliament.uk



**Gwasanaeth Gwres
a Plymio**

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718



Llun buddugol Jay Clough o Gastell Dolbadarn.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

- * Cig o ffermydd lleol
- * Partiön rhwng 40 a 400!
- * Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
- * Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk

**Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun**



Y SAMARIAID
(01248) 674985

O SIAMBAR SELWYN

Rwy'n berson plwyfol iawn. Wedi cael fy ngeni a fy magu ac wedi cael y fraint o fyw drwy gydol fy oes o fewn i ffiniau plwyf Llanddeiniolen. O ydw, dwi wedi gwneud fy siâr o deithio, ac mi alla i ddweud yn gwbwl onest fy mod i wedi gweld bob man yr oeddwn yn awyddus i'w weld yn yr hen fyd 'ma. A'r daith ora o bob taith a wnes ydi'r daith 'yn ôl i Landdeiniolen'.

Dwi wedi cael fy nghaethiwo tipyn y dyddiau hyn. Henaint yn pwyso arna i, a'r ffon wedi dod yn gydymaith i mi. Ond mi rydw i'n lwcus iawn. Mae gen i olygfa fendigedig o'r tŷ acw. Yr Wyddfa a'i chriw yn un panorama o 'mlaen i, ac mi ges i fonws ychwanegol eleni pan ymddangosodd y cewri oll yn eu gynnau gwynion. Na, doedd dim angen mynd dramor i gael golygfa gyffelyb.

Mi fydda i yn hoffi mynd ambell dro yn y gaeaf 'rownd y pas', hynny ydi dilyn trwyn y car i gyfeiriad Dyffryn Ogwen, ac er bod 'na garped o eira ar y ffyrdd, gyrru yn wyladwrus heibio i Dyn-y-Maes, gan nadreddu fy ffordd tuag at Lyn Ogwen, a chael Tryfan, Efnisien Eryri, a'i gadernid balch yn fur creigiog o arian o'm blaen. Mae Tryfan yn wahanol i bob mynydd arall. Mae golwg heriol arno. Ac mi dreulia i awr ddifyr yn synfyfyr yn ei gysgod.

'Llofrudd o fynydd wyf fi', meddai un o'n prifeirdd am y mynydd hwn. Llofrudd y bu miloedd o raffau yn hongian am ei wddf ac yn pendilio uwch ei greigiau danheddog. Ond llofrudd serch hynny, na chafwyd ef yn euog gan yr un crwner o lofruddio yr un dringwr a feiddiodd dresmasu ei stad. Na, y 'gŵr hoff o graig a rheffyn' sy'n euog bob tro o dorri rheolau'r mynydd.

Mae'n debyg mai yn y dechreuad y crewyd ei gamp, pan ruodd terfysg erchyll yng

nghrombil daear, gan falurio ei chrystyn brau a chwydu'r creigiau fel gwaddod drwy eigion dyfroedd, i ymgaedu tua'i grib, gan lusgo ei gawraidd gorff tuag at ei 'Adda' a'i 'Efa'. Mae'n bur debyg hefyd i'r mynydd ysgithrog hwn roddi cilfach yn ffau i sawl llwynog a lloches i sawl eryr gael sangfa i'w nyth.

O lusgo'n ôl dros ysgwydd y canrifoedd, mi fydda i yn dychmygu gweld y gaer greigiog hon yn amddiffynfa i'r Brythoniaid dewr, ac yn darian i'r Celtiaid ym mrwydr eu rhyddid. Yma, yn sicr, y bu annibyniaeth Gwalia yn llechwraidd lercian. Bu gwaed y dewrion yn rhuddo'r llechweddau hyn, a bu stormydd canrifoedd yn dygn sgwrio ei farc oddi ar greithiau'r graig.

Ond y dydd o'r blaen, roedd Tryfan dan fantell o eira, a sŵn rhyfeloedd ymhell o Ddyffryn Ogwen. Ei falchder mud dan goban wen, a thawelwch yn teyrnasu. Dim ond rhuthr ambell gar salŵn a thuchan ambell lori ar yr A5, a bref ambell ddafad farus o'r ucheldir a dorrai ar y distawrwydd. Nid oedd cadernid balch y mynydd yn denu'r dringwyr, ac nid oedd heddwch ei lwybrau troellog yn croesawu'r sawl a ddymunai nadreddu ei ffordd tua'i grib, gan i'r rhew a'r eira barlysu'r cyfan. Ond cyn hir daw tymor y dringo drachefn ac fe ddylifa'r miloedd o'r dinasoedd i dderbyn her ei binaclau ac i ateb galwad anorfod ei greigiau. Dadlennir gogoniant Eryri i'r sawl a barchant y garwedd, ond gwae y rhyfygus rai a feiddiant bendilio wrth rimyn o raff uwchben ei glogwyni, Ia, llofrudd o fynydd yw hwn, ac angau yw gwobr y sawl a'i dirmyga. Fel y canodd y diweddar Brifardd Emrys Edwards:

Ar ddibyn llwyd lladdwyd llanc
O'i nwyf aeth rhywun ifanc,
I'w drist-cyn-ei-amser-dranc
Gŵr hoff o graig a rheffyn
Baw a gwaed ar wyneb gwyn,
A briwiau - mab i rywun.

Diolch am gael hel
meddyliau unwaith eto dan
gysgod Tryfan. Fe alwa i eto, reit
siŵr os byw ac iach, i

ddychmygu'r gorffennol ac i
edmygu' ei fawredd mud - a'i
ofni.

Troi trwyn y car am adre 'yn
ôl i Landdeiniolen' a dychmygu
clywed Tryfan yn sibwrdd -
sibwrdd geiriau fy hen gyfaill,
Rolant o Fôn. Geiriau agoriadol
'Awdl y Graig'.

'Hen wyf a chadarn hefyd
Hŷn na balch awenau byd.'



Grŵp hamdden annibynnol yw
Arlunwyr Sarn, wedi tyfu allan
o gyn-ddosbarth WEA/ Coleg
Harlech. Does dim polisi
cyffredin nac undod pwnc nac
arddull. Mae pawb yn dilyn ei
drywydd ei hun.

Byddwn yn cynnal
arddangosfa flynyddol am
wythnos yn Neuadd Goffa Sarn
Melltteyrn ym Mhen Llŷn, ein
cartref. Eleni, rydym wedi
mentro ymhellach, cyn belled â
Llanberis, a gobeithiwn yn fawr
y bydd toreh o ddarllenwyr Yr
Eco yn troi mewn i Fynydd
Gwefru i'n gweld. Mae'n debyg
y bydd mwy o argoel gwynt ar
fôr nag ar haul ar fynydd yn y
cynnyrch! Lluniadwyr naturiol
ydan ni, yn dibynnu'n gryf ar y
byd o'n cwmpas am
ysbrydoliaeth.

CYNLLUN CASGLU HEN LUNIAU BRO 'ECO'R WYDDFA'

Yn dilyn y sesiwn gyntaf yn Pete's Eats, Llanberis yn ystod yr
Ŵyl Ffilmiau, daeth sawl llun diddorol dros ben i law. Yn dilyn
y sesiwn, derbyniodd Gareth Roberts wahoddiad i ymweld â
chartefi; un yn arbennig â chasgliad helaeth o hen luniau.
Uchafbwynt y sesiwn oedd derbyn copi ar CD o hen ffilm a
dynnwyd gan wr o'r enw Ivo Peters. Roedd yn dangos rhannau
o Chwarel Dinorwig ac yn dilyn taith y tren o'r Gilfach Ddu i
Benscoins. Anhygoel! Tybir fod y ffilm wedi ei thynnu ar
ddiwedd y 1950'au. Oes rhywun yn cofio'r gwr hwn yn ymweld
â'r chwarel a'r ardal? Bydd trefniant yn cael ei wneud i gynnal y
sesiwn nesaf yn Llanrug yn ystod mis Mehefin. Cewch y
manylion a'r dyddiad yn y rhifyn nesaf.



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch

â **Gomer Roberts**

Ffôn : **01286 870462**

Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

ARVONIA

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: **01286-675175** • Ffacs: **01286-671126**

E-bost: **info@arvonias.co.uk** • Gwefan: **www.arvonias.co.uk**



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Daeth nifer dda o aelodau ynghyd y mis yma dan lywyddiaeth y Prifardd Selwyn Griffith, ac wrth groesawu pawb cydymdeimlwyd â dwy o'r aelodau, sef Edith Jones a Rita Williams, y ddwy wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Anfonwyd cofion at Mair G. Jones a Nerys Owen a dymunwyd gwellhad buan i'r ddwy. Da oedd gweld Megan Humphreys unwaith eto yn dilyn anffawd a gafwyd adeg yr eira mawr.

Braf oedd cael croesawu Mair Price, Caernarfon, erbyn hyn ond wedi byw ym Methel am 30 o flynyddoedd, i annerch. Gan fod dyddiad llenwi'r Cyfrifiad newydd basio aeth y siaradwraig â ni 'nôl gan mlynedd a chael cipolwg ar sut yr oedd pethau ym Mhrydain Fawr y pryd hynny. Dyna'r cyfnod pan y daeth ceir yn amlwg am y tro cyntaf ac, o'r herwydd, ffurfiwyd yr A.A. (Automobile Association). Cawsom hanes am ymgyrch y Suffragettes i sicrhau pleidlais i ferched ac, wrth gwrs, roedd David Lloyd George wedi gwneud enw iddo'i hun yn Llundain, ac ym 1911 cyflwynodd y mesur cyntaf gan Lywodraeth Prydain Fawr i yswirio gweithwyr rhag effeithiau afiechyd a diweithdra. Pasiwyd deddf Yswiriant Cenedlaethol Lloyd George ym mis Rhagfyr 1911. Yn ogystal â hanesion y wlad cafwyd nifer o storïau diddorol a doniol am yr hyn oedd wedi digwydd yn yr ardal yma - hanesion digon pwysig i ymddangos ym mhapurau newydd y cyfnod.

Talwyd gair o ddiolch gan y Parchedig Marcus Wyn Robinson i Mair Price am ein tywys yn ôl yn ddiddorol iawn mewn hanes, ac i Beti Owen a Gwyneth Williams am ofalu am

y baned.

Bydd y cyfarfod nesaf brynhawn Mawrth, Mai 3ydd, yng nghwmni'r Parchedig W. R. Williams a rhennir manylion am y trip pentymor.

DIOLCH. Dymuna Rita, Manon, Meinir a Menna a'r teulu ddiolch i bawb o fro'r Eco am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigaeth. Maent wedi colli priod, tad a thaid oedd yn annwyl iawn iddynt ac mae bwch enfawr ar yr aelwyd yn Elan.

Daeth cannoedd o bob cwr o Gymru i'r angladd, a thystia hyn i garedigrwydd a chymwynasgarwch tawel Collwyn i lawer o bobl drwy'r Gwasanaeth Tân, Eisteddfodau Cenedlaethol ac amryw o feysydd eraill. Casglwyd £3,000 er cof fydd yn cael ei rannu rhwng Apêl Eisteddfod yr Urdd 2012 ac Apêl Patagonia Ysgol Brynrefail.

Diolch i'r Parch Marcus Robinson am ei gefnogaeth a'i arweiniad ddydd yr angladd, i Richard Llwyd Jones am ei farddoniaeth ac i Mrs Glenys Griffiths a Gethin yr organyddion. Bu'r cyfan yn gysur mawr i'r teulu.

Ein diolch hefyd i Gwyneth a'r merched am drefnu'r lluniaeth ardderchog.

DIOLCH. Mae Nora Parry, Wilnor, yn diolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da yn dilyn ei damwain yn ddiweddar.

DYMUNA Beryl a Dafydd Parry, Hafod Elen, ddiolch i deulu a chymdogion a ffrindiau am y dymuniadau gorau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas Emrallt.

MERCHED Y WAWR. Cafwyd noson hynod o ddifyr a chyffrous nos Fercher, 13 Ebrill, pan ddaeth Anwen Roberts a'i chyfeillion o'r Felinheli atom i

ddysgu eu sgiliau dawnio Salsa. Da oedd gweld mor heini a medrus oedd rhai o'n haelodau wrth iddynt gymryd rhan yn y dawnio a'r hwyl. Diolchwyd i Anwen yn galonogol iawn gan Eirlys Williams a thystiodd i bawb gael noson hapus oedd yn help i ni gadw yn heini.

Yr oedd yn braf cael croesawu Edwina, ein trysorydd, yn ôl atom ar ôl iddi gael triniaeth ar ei llygaid.

Anfonwyd ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad buan at Falmai Owen, sydd wedi cael damwain yn y tŷ ac wedi torri ei ffêr. Hefyd anfonwyd ein cofion a'n dymuniadau gorau at Jenkin, gŵr Glenys, sydd heb fod yn dda yn ddiweddar a Brian, gŵr Eirlys Sharpe, sydd yn derbyn cwrs o driniaeth ar hyn o bryd. Dymunwyd yn dda hefyd i Gwyneth Jones sydd yn mynd i gael triniaeth ar ei phen-glin yn fuan.

Braf oedd cael llongyfarch Eirlys a Gwilym Williams, Y

Ddôl, ar ddathlu eu Priodas Ruddem ac yr oedd y gangen yn hynod falch o gael llongyfarch Heledd Hughes, wyres Gwyneth Price, ar ei llwyddiant o gael ei dewis i ganu cân Wmff ar raglen Cyw ar S4C.

Soniodd ein llywydd, Rhian Hughes, am y tri cwrs ysgrifennu yn Nhŷ Newydd; am Wawrthion nodedig y mudiad yn Eisteddfod yr Urdd eleni, ac am y cynllun darllen stori i'r Ysgolion Meithrin lleol. Gofynnir yn garedig i bawb sydd heb gael cyfle eto i ddod ac arian raffl cenedlaethol y mudiad, ynghyd â'u dewis o fwyd a'r arian ar gyfer ein noson pentymor ym Mwyty Lleu, Dinas Dinlle ar 8 Mehefin, i'r cyfarfod nesaf ar 11 Mai.

Yr oedd y baned ar ddiwedd noson mor fyrlymus yn werthfawr iawn a diolchwyd i Ellen Ellis, Alice Jones ac Eirlys Williams am ei pharatoi. Enillydd lwcus y raffl y tro hwn oedd Gwyneth Jones.

CABAN

(Veritate.Scientia.Labore)

'Run llarwydd a phinwydd sy'n gwarchod ffin
rhyngddi a'r pentref ers degawdau'r drin.

I lawr acw roedd gweithdy Willie Land,
heddiw cwrs antur a gwarchodfa grand,

roedd cofeb lechen yn rhywle fan hyn
i'r bardd na welodd Yr Wyddfa ond gwyn...

Fform Sics a'r Llyfrgell oedd y 'stafell hon
(uchelgais disgyblion y parthau - bron!)

Daw iasau'r gorffennol heddiw yn lleng,
a nawr deallaf gyd-ddyhead gwreng-

ceiniog ar geiniog, aeth sylltau i gyd
i godi'r 'Cownti' - a gwella eu byd.

Straffaglodd y tadau mewn twll a gwâl
wrth grafu bywoliaeth am gyflog sâl...

Daw lleisiau f'athrawon, Jôs Cem, Bob Môr
o gilfachau y lle - cyfoeth o stôr

am Y Boss, Cadi, Dafydd, dau Jêms, Wil Fôn,
a Miss Parry Beiol - annwyl yw'r sôn!

Daeth gwasanaethyddes a'm saig i'r ford,
ond eto, mor felys, doi cord 'r ôl cord

o sgôr pumdegau - mabinogi'r lle
am deil, Duw a wŷr, yn llinynnau'r wê.

Oddi allan mae geiriau gyfyd iâs
o gofeb i'r Cownti ar garreg las...

mewn caban a phonc, nid Lladin yr iaith
ond carent "Gwirionedd, Gwybodaeth, Gwaith"

hen arwyddair yr ysgol er cyn co'
fu'n grcdo, fu'n obaith, fu'n sylfaen bro!

NORMAN CLOSS

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAVN


Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorfswys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL-07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cynhaeddwr Mewn Steil Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG - WELSH
LANGUAGE BOARD



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Cofiwch
gefnogi ein
hysbysebwy

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

DALIER SYLW. Dyddiad Cymanfa'r Annibynwyr wedi newid i 4 Mehefin.

Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Deiniolen a Chwm y Glo bawn Sul, 4 Mehefin am 2.00 o'r gloch yn Neuadd Gymuned Penisarwaun.

NI threfnir bws, mae digon o le i barcio ar fuarth yr ysgol. Arweinydd y Gân yw Gareth Jones, Llanberis. Bydd Te Bach i ddilyn i bawb sy'n dymuno aros.

DIOLCH. Dymuna Llew ac Avril Pritchard, Stryd Fawr Llanberis, ddiolch i'w ffrindiau, teulu a chymdogion am eu caredigrwydd ar achlysur eu Priodas Aur ar Fawrth y 25ain.

GAIR O DDIOLCH. Dymuna Margaret Griffiths, 2 Bryn Teg, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu holl garedigrwydd tuag ati ar ôl ei damwain yn ddiweddar.

BABI NEWYDD.

Llongyfarchiadau i Ian a Claire ar enedigaeth eu mab bach, Dafydd John, a hefyd i Eleri ac Eilir, Peris View, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf, ac i Catherine Ll. Williams ar ddod yn hen nain.

DIOLCH. Dymuna Ian a Claire ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab bach. Diolch.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Ar nos Wener, Ebrill y 1af, cymerodd y Côr ran mewn Cyngerdd Elusennol yn Neuadd Dwyfor, Pwllheli. Artistiaid eraill a gymerodd ran oedd Hywel Jones, John ac Alun, Seimon Menai ac Ann Hafod, Band Pwllheli a Ronw a Wil.

Aeth elw'r noson tuag at Liwcimia, Clefyd Siwgr, Strôc a Chronfa Gymunedol Catherine.

Yn ystod y misoedd nesaf bydd y Côr yn ymweld â Chlawdd Newydd (Rhuthun), Llandudno, Betws Y Coed ac yn cymryd rhan mewn achosion oddi mewn i'r ardal hon.

DIOLCHIADAU. Dymuna Janice, Noel a theulu'r diweddar Olwen Roberts, Stryd y Faenol, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu hannwyl fam.

Diolch hefyd i'r Parch Robert Townsend am ei wasanaeth, ac hefyd i Mr Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, am ei drefniadau trylwyr ac urddasol.

NEWID DOSBARTHWR. Wedi nifer helaeth o flynyddoedd, mae Dafydd Hughes, Stryd Thomas, yn rhoi'r gorau i ddosbarthu'r Eco yn ei ddarn o'r Pentref. Diolch yn fawr i Dafydd ac i bawb arall sy'n ymgymryd â'r gwaith yma. Gobeithiwn y cawn rywun i gymryd lle Dafydd!

DIOLCH. Dymuna Jane O'Donnel a theulu'r diweddar Elsa Williams, 12 Well Street, Llanberis, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion tuag at Feddygfa Llanberis. Diolch arbennig i'r Parch John Pritchard am ei wasanaeth yn yr angladd ac i E.W. Pritchard am eu trefniant gofalus. Diolch yn fawr i bawb.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL. Terfynwyd tymor y Gymdeithas gyda chinio ardderchog yng Ngwesty Dolbadarn ar nos Fawrth y 12fed o Ebrill. Y Gwesteion oedd y Parch a Mrs W.R. Williams, Y Felinheli.

Cawsom storïau difyr a

doniol gan Mr Williams ac roedd pawb wedi mwynhau'r noson. Llywyddwyd y noson gan y Parch John Pritchard a rhoddwyd y diolchiadau gan Mr John Huw Hughes. Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Williams.

Diolch i Aneuryn a'r staff am y bwyd ardderchog—fel arfer!

Bydd tymor nesaf Y Gymdeithas yn dechrau ym mis Hydref ac mi fydd cyfarfod o'r pwyllgor, i drefnu rhaglen, yn cyfarfod yn ystod mis Gorffennaf - dyddiad i'w drefnu!

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Betty Jones, Y Berllan, a'r

teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar ôl colli Mr Percy Jones ar yr 22ain o Fawrth.

Diolch i'r Parch John Pritchard a'r Parch Marcus Robinson am eu cefnogaeth, ac i'r ymgymerwr Dylan Jones, Penisarwaun.

Diolch yn arbennig i ferched 'Caredig' a fu'n gofalu amdano dros y blynyddoedd pan oedd yn wael. Diolch yn fawr am y llu cardiau ac arian a dderbyniwyd. Mae'r arian wedi ei yrru i'r Limb Centre yn Wrecsam, er cof am Mr Percy Jones.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD CYDYMDEIMLO

Estynnwyd cydymdeimlad â Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, yn yr oedfa nos Sul, Ebrill 10fed, yn ei phrofedigaeth o golli ei ddiweddar chwaer, Ceridwen Jones o Gaernarfon, ar Ebrill 1af. Anfonwyd hefyd ein cofion cynhesaf fel Eglwys at Gwyneth a hithau erbyn hyn yn preswyllo yng Nghartref Dwynfa, Bontnewydd.

OEDFA'R PASG Edrychir ymlaen at ddathlu Gŵyl y Pasg dan arweiniad y Parch Reuben Roberts, Bontnewydd, pryd y gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd yn yr oedfa

am 5.30 yr hwyr.

OEDFAON MAI

8 am 5.30: Parch S.O.

Hughes. Hen Golwyn

15 am 5.30: Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan

22 am 5.30: Parch Eric Jones, Bangor

29 am 2.00: Mr Carwyn Siddall, Niwbwrch

Y GYMDEITHAS.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos Iau, Mai 12fed gyda sgwrs gan Gareth Roberts ar y testun 'Crwydro a Darganfod'.

Cadeirydd y noson fydd Dafydd G. Ellis, Gweledfa. Croeso cynnes iawn i unrhyw un ymuno ar y noson.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

DALIER SYLW. Dyddiad Cymanfa'r Annibynwyr wedi newid i 4 Mehefin.

Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Deiniolen a Chwm y Glo bawn Sul, 4 Mehefin am 2.00 o'r gloch yn Neuadd Gymuned Penisarwaun. NI threfnir bws, mae digon o le i barcio ar fuarth

yr ysgol. Arweinydd y Gân yw Gareth Jones, Llanberis. Bydd Te Bach i ddilyn i bawb sy'n dymuno aros.

LLONGYFARCHIADAU i Dewi, 13 Dôl Afon ar achlysur dathlu ei ben blwydd yn 18 oed.

DIOLCH i plant yr ysgol am blygu'r Eco mor dda y mis diwethaf.

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol

Annibynnol

2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

DALIER SYLW. Dyddiad Cymanfa'r Annibynwyr wedi newid i 4 Mehefin.

Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Deiniolen a Chwm y Glo bawn Sul, 4 Mehefin am 2.00 o'r gloch yn Neuadd Gymuned Penisarwaun.

NI threfnir bws, mae digon o le i barcio ar fuarth yr ysgol. Arweinydd y Gân yw Gareth Jones, Llanberis. Bydd Te Bach i ddilyn i bawb sy'n dymuno aros.

DIOLCH. Dymuna Arthur a Meira, Rhydfadog, ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniwyd ar ben-blwydd Meira yn 80 oed ac ar achlysur eu Priodas Ddiemwnt yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Teyrnged i Mr Bryngwyn Williams gan ei gyfaill, Dafydd Cefn Coch

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Bryngwyn, a hunodd ar yr ail o Ebrill 2011 yn 77 mlwydd oed. O ganlyniad i'r amgylchiadau uchod braint oedd cael cyfle gan ei wraig i dalu teyrnged i hen gymydog a chyfaill mynwesol.

Ganwyd Bryngwyn ar y pedwerydd ar bymtheg o Awst, un naw tri tri mewn tyddyn o'r enw Pen Bryngwyn, sydd â'i leoliad oddeutu milltir a hanner uwchlaw pentref Deiniolen, ar lethrau Gwaen Gynfi. O ganlyniad i'r bwriad o godi adeilad i ddal a phuro dŵr o afon Marchlyn i wasanaethu cartrefi Deiniolen a'r cylch, bu'n rhaid i deulu Bryngwyn ymadael o'r tyddyn am y rheswm fod ei leoliad bron ar lan yr afon.

Ynghanol y tri degau, a Bryngwyn ond yn ddyflwydd oed, symudodd y teulu i dyddyn o'r enw Ffridd Uchaf. Yn un

naw tri saith, daeth fy nhad a mam, fy chwaer a minnau yn ychydig fisoedd oed i fyw i dyddyn uwchlaw Ffridd Uchaf ac heb fod ymhell i ffwrdd. Pan ddechreuodd fy chwaer a minnau fynychu Ysgol Llandinorwig, Bryngwyn a Margaret, ei chwaer, oedd yn cymryd gofal ohonom tra ar ein taith yn ôl a blaen drwy'r llwybrau. Daeth Bryngwyn a minnau yn gyfeillion cu.

Mewn blynyddoedd, daeth yn amser i Bryngwyn adael yr ysgol a chafodd ei ddymuniad, sef cael gwaith ar fferm oedd ar derfyn tir ei rieni. Wedi gweithio yn y fan honno am gyfnod symudodd i weithio ar fferm Ynys Llecheirion, sydd heb fod ymhell o'r fan hyn. Er hynny, ymuno â'r fyddin wnaeth Bryngwyn ar gyrraedd ei ddeunaw oed. Ar ôl dychwelyd gartref o'r fan honno ymgymerodd â sawl gorchwyl, gan gynnwys gyrru lori a chario glo gyda Eddie Wyn.

Rwyf yn cofio pan yr oedd pobl yr ardal a'r pentref yn trafod gwroldeb Bryngwyn yn dilyn iddo achub plentyn oedd yn ei wely pan aeth un o'r tyddynnod ar dân tra bod ei rieni yn y cae yn trin y gwair.

Symudiad nesaf Bryngwyn oedd mynd i weithio i chwarel Dinorwig. Tybiaf mai yn ystod ei yrfa chwarelyddol y priodwyd Bryngwyn a Mai, a chartrefu yn Ffridd Uchaf. Symudodd gweddill ei deulu i dyddyn o'r enw Rhwng y Ddwryd. Yn fuan ar ôl iddynt briodi daeth stad y Faenol ymlaen gyda chynllun o aildrefnu'r stad a chollodd Bryngwyn ei dir. Roedd hi'n ymddangos mai cyflwr y tai a'r bydai oedd y stad yn gymryd i ystyriaeth yn hytrach na'r ffermwyr a'r tir. O ganlyniad i golli tir, codi pac wnaeth Bryngwyn a Mai a symud i fyw i Rhiwlas. Yn fuan

ar ôl hynny caeodd chwarel Dinorwig ond, yn ffodus, cafodd Bryngwyn waith gyda'r Cyngor Sir. Prynodd dir mewn sawl ardal ar gyfer cario ymlaen i fagu defaid Cymreig.

Roedd gan Bryngwyn lygaidd craff cyn belled ag yr oedd dewis hyrddod a magu defaid Cymreig o safon uchel yn y cwestiwn. Enillodd lawer iawn o wobrau, ynghyd â phrisiau uchel am ddefaid a hyrddod.

Roedd Bryngwyn yn aelod ffyddlon o Gymdeithas Defaid Mynydd Arfon ac wedi cadeirio ei chyfarfodydd sawl tro. Yr un modd gyda Undeb Amaethwyr Cymru, y rhai oedd mor agos at ei galon.

Bydd colled fawr ar ôl Bryngwyn. Mae ein cydymdeimlad yn fawr tuag at ei wraig a'i deulu oll, ynghyd â'i gyfeillion.

Diolch i i chwi oll am eich gwrandawriad.

GŴYL DEINIOLEN A'R CYLCH. Cynhaliwyd disgo yn ddiweddar yn Nhŷ Elidir ar gyfer plant y pentref. Yn ogystal, dewiswyd y Frenhines a'i gosgordd ar gyfer gŵyl eleni, sef:

Leanne - Brenhines;

Chloe - Tywysoges;

Cian ac Ahmed - Tywyswyr;

Beca - Merch y Blodau.

Fe welir nifer o weithgareddau yn arwain tag at yr Wyl, fydd yn cael ei chynnal eleni ar 25 Mehefin.

MERCHED Y WAWR. Treuliwyd cyfarfod mis Mawrth yng Ngwesty Padarn Lake yn Llanberis yn dathlu Gŵyl Dewi a chafod cinio ardderchog yno ac, am fod y cinio Nadolig wedi gorfod cael ei ohirio oherwydd y tywydd mawr ac er ei bod yn fis Mawrth erbyn hyn! cafwyd Siôn Corn cudd i ymweld â'r aelodau. Ar y nawfed o Ebrill aeth nifer o'r aelodau i Ginio'r Llywydd Cenedlaethol yn Meifod, Bontnewydd. Cafwyd diwrnod arbennig yno yn ciniawa a chafwyd sgwrs gan y Llywydd Cenedlaethol, Mrs Mererid James o Castell Newydd Emlyn.

Hefyd cafwyd adloniant gan Mari Gwilym a gwrandao ar lais swynol Robat Arwyn.

Yn y cyfarfod nesaf bydd Nia Wyn Williams yn trafod hen bethau. Dymuna pawb o'r aelodau anfon cofion at y rhai sydd heb fod yn dda yn ddiweddar a gobeithir cael eu gweld yn y cyfarfodydd yn fuan. Hefyd carai yr aelodau ddymuno hwyl fawr i Margaret a Buddug fydd yn ymweld â'r Wladfa dros y Pasg ac edrychir ymlaen at glywed yr hanes. Dyna un noson wedi ei llenwi y tymor nesaf!!!!

JAMBORI YR URDD. Mwynhaodd plant y pentref gael cymryd rhan yn Jambori yr Urdd ar Sadwrn, 9 Ebrill yng Nghaernarfon. Cafodd pawb gyfle i gerdded trwy strydoedd y dre a mwynhau'r gweithgareddau yn y castell.

APÊL EISTEDDOFD YR URDD ERYRI 2012. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i blant yr ysgol am eu cyfraniad tuag at yr apêl. Cafwyd dathliad Dydd Gŵyl Dewi yn yr ysgol a'r plant yn gwisgo eu dillad Cymreig.

Yn ogystal, hoffai'r pwyllgor ddiolch i Mrs Falmai Williams, Mrs Helen Sutherland a Mrs Jackie Jones a gymerodd ran mewn taith gerdded nodedig ar 8 Ebrill, gyda'r arian yn mynd tuag at yr apêl.

DYMUNA Kimberley Owen ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 18 oed.

DYMUNA Mai, Gwynfryn, Eirwen ac Alwyn a theulu'r diweddar Owen Bryngwyn Williams (O.B.) 16 Bro Rhiwen, Rhiwlas, ddiolch i bawb am y llu cardiau, y rhoddion a'r caredigrwydd a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn eu colled fawr. Diolch i'r Parchedig Nia Williams am y gwasanaeth ac i Dafydd Morris am y deyrnged. Diolch hefyd i Dylan Griffith am ei drefniadau gofalus.

MOLI

Mwy O Le i'r Iesu

Oedfa fisol yn Capel Coch, Llanberis.

Trefnir ac arweinir yr oedfa gan ieuenctid ac arweinwyr CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol).

Os nad oes oedfa nos yn eich capel / eglwys chi, mae croeso cynnes i chi ddod atom i'r oedfa hon a gynhelir ar yr ail nos Sul o'r mis.

Bydd yr oedfa nesaf am 5.00 o'r gloch, nos Sul, Mai 8.

Croeso hefyd i chi aros am banded ar ôl yr oedfa.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Blodau Racca

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

YSGOL BRYNREFAIL

Ysgoloriaeth i Gwenlli

Mae'n bleser o'r mwyaf cyhoeddi fod Gwenlli Haf, o bentref Llanrug, wedi ei henwebu gan Brifysgol Cymru Drindod Dewi Sant i dderbyn Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a fydd yn cychwyn ym mlwyddyn academiaidd 2011-12 a fydd, dros ei gyrfa yn y brifysgol, yn werth £3,000.

Ar hyn o bryd y mae Gwenlli yn astudio Cymraeg, Saesneg ac Addysg Grefyddol ar gyfer lefel A ac yn gobeithio astudio Addysg Grefyddol yn ddwysach



yn y brifysgol. Ni does ganddi sicrwydd eto yn ei dewis o yrfa ond efallai y gwelwn ni hi yn ôl ym Mrynrefail fel athrawes Addysg Grefyddol yn y dyfodol - pwy a wŷr?

Geneth Bryrefs - da 'de!

SBOTOLAU

ar
CHRIS ROBERTS
Y Steven Spielberg Newydd?



Y mae Chris Roberts, sydd ym mlwyddyn 12, wedi hen arfer gweithio ym myd ffilmiau. Cafodd ein gohebydd gyfweiliad â fo.

Ers pa bryd wyt ti di bod yn cerdded ym myd ffilmiau?

Cymerais ran yn ffilmio fy ffilm gyntaf pan oeddwn yn ddeg oed gyda ffilm ffuglen wyddonol am bawb yn y byd yn diflannu ond chwe phlentyn bach.

A beth sydd di bod yn digwydd yn ddiweddar?

Yr her eleni oedd creu ffilm o fewn penwythnos ar gyfer 'Gŵyl

Ffilmiau Pics' yn y Galeri Caernarfon cyn ei yrru i 'Cystadleuaeth Zoom - Ffilmiau'r Ifainc' sydd yn gystadleuaeth cenedlaethol. Yn y seremoni a gynhaliwyd yn Tonypandy ar y 5ed Fawrth 2011 dyfarnwyd ein ffilm 'Merch ei Thad' y ffilm Gymraeg orau yn y gystadleuaeth. Yn wir, yr oedd yn gystadleuaeth agos dros ben a Lisa Davies, Cyfarwyddwr Zoom' yn dweud mai eleni oedd y gystadleuaeth orau erioed

Ym mhle ac am beth wnaethpwyd y ffilm?

Wel, fe wnaethpwyd y ffilm yng Nghaernarfon yn nhŷ Dewi Rhys, 'Dyff yn Pobol y Cwm ac y mae'r ffilm yn portreadu Mirain ar fore ei phriodas a'i thad yn ceisio ei pherswadio mewn llu o wahanol ffyrdd i beidio â phriodi'r dyn rhyfedd a fyddai'n ŵr iddi.

A dyma'r tro cyntaf y bu cystadlu?

Na, yr ydym yn cystadlu yn flynyddol. Y flwyddyn ddiwethaf ein ffilm 'Sypreis' ddyfarnwyd 'Y Perfformiad Gorau yn yr Iaith Gymraeg'.

Ac i ddiweddu rhaid i mi ofyn beth yw dy hoff ffilm orau erioed mewn unrhyw iaith?

Heb os nac oni bai, a dwi'n hollol ddisfrifol, 'Mary Poppins', am nifer lu o wahanol resymau!

CYSTADLEUAETH GŴYL GWYDDONIAETH PRIFYSGOL BANGOR

Fe ddaeth Mari Tachwedd â chlod mawr iddi ei hun, ei theulu ac i Ysgol Brynrefail yn ddiweddar trwy ennill y wobr



gyntaf am farddoniaeth yng Ngŵyl Gwyddoniaeth Prifysgol Bangor. Derbyniodd Mari ei gwobr gan Faer Bangor, Mrs Dorothy Bulled M.B.E., ar fore Sadwrn 12fed Mawrth 2011 yn Amgueddfa ac Oriel Gelfyddyd Bangor.

Glan yr Afon

Dianc i lan yr afon,
dianc i ben draw byd.
Gofidiau yn boddi
yn nyfnder yr afon.
Poenau yn diflannu
yng nghyfiawnder y lli.
Hiraeth
dim ond gair diystyr
mwyach.
Llonydd gorffenedig
Yw llonydd yr afon.
Trydar adar
yn sisial yr awel
wrth alw i wyllo'r nos yn galw.
Ar y garreg
eisteddai f'annwyl gariad.
Fy nghariad
sy'n rhosyn coch heb ddrain.
Safem fan honno
i wylid yr haul yn mynd i lawr
a gadael i'r dail
sibrwd iaith ein meddyliau.

MARI TACHWEDD

PÊL DROED CWPAN CYMRU 2011



O guro Ysgol Llanfyllin 5-0 yn y rownd gyn-derfynol y mae tîm pêl-droed genethod Ysgol Brynrefail dan 14 drwodd i'r gêm derfynol a gynhelir ar gae T.N.S. yng Nghroesoswallt. Sgoriwyd y goliau gan Alaw Prys (3), Lois Regan (1) a Kushla Everitt-Kingston (1).
Genod Brynrefs -da de!

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar

**THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL**
LLANBERIS


with droed yn Wyllyddfa

FFON: 08444 119 004









www.a-v-w.co.uk
01286 673559
CIBVN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU

LANSIO CYFROL NEWYDD



Mae'r wyneb yn un sy'n hollol gyfarwydd i wylwyr S4C, ond faint ohonom sy'n gwybod mwy am Nia Parry nag a gaiff ei ddatgelu gan ei gwên enwog? Mewn cyfrol newydd gan Wasg Gwynedd fel rhan o'r gyfres Nabod, mae'r gyflwynwraig, y cynhyrchydd a'r tiwtor Cymraeg yn rhoi cipolwg o'i hanes, o'i dyddiau cynnar yn Nwyran ar Ynys Môn i Landrillo-yn-Rhos, o Ysgol y Creuddyn i Brifysgol Abertawe, yna'r cyfnod yn byw a gweithio yng Nghaerdydd cyn ymgartrefu yn Rhostryfan yng Ngwynedd a dod yn fam ei hun y llynedd.

Mae'r gyfrol hwyliog hon ar ffurf llyfr lloffion, sy'n olrhain hanes bywyd a gyrfa Nia law yn llaw â lluniau o albwm personol

Nia a'i theulu. Yn ogystal â hanes ei gyrfa, ei theulu a'i ffrindiau, cawn gyfle i glywed Nia yn sôn am ei hoff a'i chas bethau, o'i hoffter o deithio a dawnsio salsa i'w ffobia am unrhyw beth efo ffangs! Cawn glywed hefyd am ei thalent fel bardd, ei diddordeb mewn cadw dyddiadur a chreu rhestrau, a sawl ffaith annisgwyl arall fel ei dawn i ddadansoddi breuddwydion.

Ond mae'r llyfr yma hefyd wedi bod yn gyfle i Nia fynd haenen yn ddyfnach, ac yn y gyfrol mae hi'n siarad yn ddi-flewyn ar dafod am y pethau sy'n bwysig iddi - yr iaith Gymraeg a'r ddelwedd negyddol o 'gyfryngis', sut y daeth i nabod ei hun yn well a delio gyda chynffwrddau tywyll mewn bywyd, megis colli hyder fel merch ifanc a'r profiad ingol o gael trafferth i feichiogi a chario plentyn.

Meddai Marred Glynn Jones, cyd-awdur Nia ar y gyfrol, 'Yr hyn a'm synnodd i ryw raddau oedd parodrwydd Nia i rannu ei phrofiadau mewn ffordd mor onest. Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r ferch benfelen honno â'r wên hawddgar, ond mae'r gyfrol yma'n dangos fod y wên honno wedi gorchfygu



Nia gyda'r tim o Wasg Gwynedd yn ystod y lansiad swyddogol yn Nant Gwrtheyrn.

ambell i her go fawr dros y blynyddoedd, ac mae agwedd bositif Nia tuag at fywyd yn wers bwysig i ni i gyd.'

Ychwanegodd Nia, 'Roedd yn brofiad go od mynd ati i ysgrifennu'r llyfr, yn enwedig a finnau wedi arfer holi pobl eraill am eu bywydau ar raglenni fel Cwprdd Dillad! Ro'n i eisiau bod yn onest am fy mhrofiadau mewn bywyd, ac mae wedi bod yn hyfryd cael y cyfraniadau arbennig gan deulu a ffrindiau. Dwi'n gobeithio y bydd pobl yn mwynhau darllen fy stori!'

Nia Parry: Gwennwch! (Cyfres Nabod) Gwasg Gwynedd, £6.95 ISBN 0-86074-271-7



Nia Parry gyda Morgan Jones, ei chyd-gyflwynydd ar S4C.

Ar gael o'ch siop lyfrau leol neu gwales.com

TAITH Y GERDDI

Fel rhan o'r ymgyrch leol i godi arian tuag at yr Urdd mae taith gerdded o amgylch gerddi Llanrug ar wedi ei threfnu ar gyfer dydd Sadwrn, Mehefin 11.

Mae nifer o arddwyr eisoes yn brysur yn chwynnu ac yn plannu, ond mae creoso i fwy ymuno yn y diwrnod o hwyl.

Cysylltwch â Meri Roberts, Bedw Gwynion ar 675605 i ni gael trefnu diwrnod gwerth chweil.

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)

BOCS O FFRWYTHAU A LLUSIAU
£10. Wedi ei ddanfôn **AM DDIM** yn lleol
ffoniwch - WIL, PEN-LLYN 079990926484

Gwasanaethau Garddio Gorwel

01286 650761
07773 020424

Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

CERIS JONES

Teglan,
Stad Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Twsia car a faniâu
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

Darren Jones
Contractiwr Teilsio

CEGINAU
YSTAFELLOEDD
YMOLCHI
A LLORIAU

9 Rhos Rug
Llanrug Caernarfon

(01286) 669090
Mobile-07894818783

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ

Ffôn: **(01286) 650834**

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor **7.30 - 6.30**

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com

O'R CYNGHORAU

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y 15fed o Fawrth penderfynwyd:

- Rhoi grant o £500 i Gynllun EFE am 2010-11 a gofyn am gyfrifon cyfredol er mwyn penderfynu os am roi cyfraniad am 2011-12.
- Cynnal cyfarfod arbennig ar 29ain o Fawrth i agor y tendrau am contractau torri gwair am y flwyddyn.
- Prynu arwyddion gyda 'Dim Gwydr' ar y blaen a 'Cadwch Llanrug yn daclus' neu 'Cadwch Cwm y Glo yn daclus' ar y tu ôl a'u gosod ar giatiau'r caeau chwarae.
- Cael 2 fin yn y ddau gae chwarae yn Llanrug a gwneud 4 slab concrid wrth y giatiau i'w gosod arnynt.
- Nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:
- Estyniad ochr - 1 Bryn Afon Terrace, Llanrug
- Newidiadau mewnol ac allanol i Hafod Gethin, Plas Gwyn, Llanrug.
- Cael mwy o wybodaeth lleol ar

y cais am dystysgrif datblygiad cyfreithloni ar gyfer 2 eiddo fel tai preswyl - Afonwy Cottage, Pontrug.

- Rhoi'r grantiau canlynol:
- Seindorf Llanrug - £700.
- CPD Llanrug Unedig - £700.
- Gofyn i Gyngor Gwynedd wagio un bin 200 litr o'r fynwent yn wythnosol.
- Anfon llythyr at berchnogion y tai sy'n defnyddio'r ffordd ger Dolwen, Ffordd yr Orsaf i gael ei barn os y byddent yn hoffi cadw'r lamp neu beidio yn dilyn cwynion bod pobl ifanc yn creu trafferth yno.
- Hysbysu Tim Parcio Gwynedd am achosion o geir yn parcio mewn lleoedd sy'n achosi anhawster i drafnidiaeth fynd heibio ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Rhoddwyd esiampl o yrrwr bws yn gorfod chwilio am berchennog car er mwyn symud ymlaen. Roedd pryder y bydd y cwmni bysiau yn penderfynu peidio a mynd trwy'r pentref os yw hyn yn parhau.
- Peidio ag adnewyddu aelodaeth BCTV am 2011-12.
- Adnewyddu aelodaeth Un Llais Cymru am 2011-12.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLLEN

Crynodeb o gyfarfod Mawrth

Cyfraniad i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Ychwanegwyd at y penderfyniad blaenorol i rannu'r rhodd yn £500 yr un i'r tair ardal -

1. Dinorwig, Deiniolen a Clwt y Bont;
2. Penisa'rwaun a Brynrefail;
3. Bethel.

Sedd wag. Cyflwynwyd rhybudd Gwynedd a osodwyd ym Mhost Bethel ar yr 22ain o Chwefror, daw'r cyfnod i ofyn am etholiad i ben ar yr 1leg o Fawrth.

Eisteddfodau lleol. Gwobr arbennig - dywedwyd mai ymateb gwan gafwyd yn Eisteddfod Bethel a £5 yn unig a roddwyd. Dim cystadleuaeth yn Eist Deiniolen. Penderfynwyd edrych ar y sefyllfa eto ar ôl derbyn canlyniadau Eisteddfodau Rhiwlas a Phenisa'rwaun

Biniau halen. Ateb Gwynedd nad ydynt yn bwriadu gosod biniau ychwanegol yn y dyfodol agos a'u bod yn ail-asesu eu trefn dosbarthu er mwyn llunio polisi newydd.

Awgrymwyd gofyn i Wynedd be fuasai'r sefyllfa pe bai'r Cyngor Cymuned yn ariannu gosodiadau a chyfrannu at eu llenwi.

Biniau mân ysbwriel. Ateb Steffan Jones ei fod yn edrych ar y sefyllfa, yn enwedig ger Co-op Deiniolen.

Rhiwlas. Dywedodd Hefin Williams bod ceir yn achosi anawsterau yno. Buasai'n amhosibl i'r gwasanaethau brys fynd ar hyd y Stryd Uchaf pe bai angen - gofyn i Wynedd a oes modd lledu'r lôn neu wella'r sefyllfa mewn rhyw ffordd.

Cremllyn, Bethel. Derbyniwyd cais Gwynedd am gyfraniad y Cyngor o £2,000 at y Cynllun Cynnal Ymyl Gwyrdd.

Llinellau melyn. Derbyniwyd rhybudd Gwynedd i'w gosod ger Post Bethel.

Praesept blynyddol.

Cyflwynodd Huw P. Hughes fanylion trethi Gwynedd yn y gwahanol ardaloedd ac ychwanegodd y bydd gofyn i Gyngorau Cymuned gyfrannu at gyfarpar meysydd chwarae a.y.y.b. gan bod y Sir yn torri i lawr ar wariant. Dywedodd Richard Ll. Jones bod treth Llanddeiniolen yr isaf ond un yng Ngwynedd a gellid dyblu'r braesept heb amharu llawer ar y trethdalwyr.

Clwt y Bont. Gofynnodd Gwilym Williams beth yw bwriad Gwynedd ynglŷn â llinellau melyn yno.

Cofeb y Chwarelwyr, Dinorwig. Dywedodd Gwilym Williams ei fod wedi ymweld â'r safle a bod cyflwr y gofeb yn dda.

Yr Allt Ddu, Dinorwig. Dywedodd Phylip Jones bod ieuenctid yn dringo'r clogwyn heb oruchwyliaeth gan awgrymu i Barc Padarn osod arwyddion "Perygl" yno.

Mainc Dinorwig. Penderfynwyd gofyn caniatâd Parc Padarn i'w gosod y tu mewn i'r ffens o flaen y lleoliad blaenorol.

Safle ail-gylchu Rhiwlas. Cyfeiriodd Hefin Williams at y dympio sy'n digwydd yno, angen gofyn i Wynedd osod arwydd "Dim taflu ysbwriel" yno a chyfeiriad safle ail-gylchu Llandygai arno.

Cynllunio. Derbyniwyd tri chais a chaniatawyd saith cais gan Wynedd.

Llwybrau
Danfonwyd cais i Wynedd i newid categorïau'r llwybrau canlynol naill ai i 1 neu 2:

113. Cefn Gwyn, Bethel.
45. Capel Sardis at yr hen ysgol, Dinorwig
96. Pen Pwll Coch.
90. Cwt Rail i Cae Hywel.
95. Cae Corniog, Pant Afon.
94. Gors Tŷ Gwyn,
94. Gors i Cae Corniog
64. Cae Llwl i Lôn Castell
69. Cae Mawr i Cefn Braich

Dyddiad y cyfarfod nesaf - 3ydd o Fai 2011.

Etholiad Cymru - 5 Mai 2011



Alun Ffred JONES

Gwneud gwahaniaeth
yn Arfon ac yng Nghymru

- www.plaidcymru.org •
- 01206 672076 • 8 Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd •
- 01248 372948 • 70 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd •



Plaid - Dros Gymru well

Hyrwyddwyd gan Arthur Rowlands, 38 Tel y Cae, Tregarth ar ran
Alun Ffred Jones, Plaid Cymru, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol

Busnesau cefn gwlad

Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?

Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01402 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol yng Nghyngorau Cymuned, o dan Ffurf Cofrestru 308933

CLWB DARLLEN YSGOL BRYNREFAIL

Ar fore dydd Mawrth yn ddi-ffael, yn ystod y cyfnod cofrestru, y mae'r Clwb Darllen yn ymgynnull yn Llyfrgell Ysgol Brynrefail ac yn fuan clywir dim ond bwrlwm lleisiau isel tra bydd y disgyblion blwyddyn 7 yn darllen llyfrau gyda myfyrwyr blwyddyn 12.

Y mae'r clwb yn rhoi cyfleu euraidd i ddisgyblion blwyddyn 7 ymarfer a chaboli eu darllen yn y ddwy iaith, gan fod sgiliau darllen, yn hanfodol ym mhob pwn a astudir yn yr Ysgol.

Gwirfoddol yw presenoldeb blwyddyn 12 ond, fel y gwelir o'r lluniau, y mae nifer helaeth o'r flwyddyn yn ffyddlon iawn i'r Clwb ac yn bresennol bob wythnos. Iddynt hwy hefyd y mae sgiliau gwrando, y sgiliau o ddysgu pryd a sut i ymyrryd yn werthfawr dros ben.

Yn trefnu'r cyfan oll mae Mrs Gwenno Bebb o'r adran Gymraeg sydd yn cadw llygad barchud ar y trefniadau.

Yn ystod y flwyddyn Ysgol y mae cyfle i ni ddangos ein gwerthfawrogiad o waith ac ymroddiad blwyddyn 7 trwy gyflwyno tystysgrifau, nid yn unig am eu presenoldeb ffyddlon, ond am eu dyfalbarhad i wella eu sgiliau darllen.



Aelodau y Clwb Darllen eleni wedi derbyn eu tystysgrifau gan Mr Dilwyn Roberts, Dirprwy Bennaeth.

RAFFL PASG 2011 CYMDEITHAS CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Bu disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 yn brysur iawn dros yr wythnosau diwethaf am y gorau yn gwerthu tocynnau raffl ar ran 'Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail'. Gwnaethpwyd elw o £1,800 ar ôl talu'r costau, a bydd yr arian yma yn mynd tuag at prynu bws mini newydd i'r ysgol.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Gwobrau ac Enillwyr

1af: £100 i Mr Alan Vincent Owen, 4 Rhos Rug, Llanrug, LL55 4BG.

2ail: £50 i Mr Elfed Morris, 12 Rhos Llwyn, Llangefni, LL77 7QA.

3ydd: £25 i Mr Paul Jones, 10 Gallt-Y-Sil, Caernarfon, LL55 2SX.

Yn ogystal roedd gwobrau

ariannol i'r gwerthwyr gorau. Cafodd Nia Elin Roberts, 8S Bethel, £20 am werthu £100. Caryl Emlyn Baylis 7I, Cwm y Glo £15 am werthu £73, a Sophie Louise Hughes 7I, Penisarwaun, £10 am werthu £66.

ADDYSG BERSONOL a CHYMDEITHASOL BLWYDDYN 10



Mae dosbarth 10E yn dilyn cwrs 'Pathfinder', gyda chymorth eu hathrawes Ms Alaw Llwyd, sy'n eu cynorthwyo i ganolbwyntio ar yrfaedd y byddent, efallai, â diddordeb ynddynt yn y dyfodol.

Mae'r cwrs yn rhoi rhestr o 20 swydd iddynt sy'n cyd-fynd â'u diddordebau a'u sgiliau.

Yn y lluniau fe welwch fyfyrwyr blwyddyn 10E yn Llyfrgell yr Ysgol yn chwilio am gwmnïau neu golegau ac yn eu llythyru i ofyn am fwy o wybodaeth am y swyddi neu'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig ganddynt.

Y mae'r rhaglen Pathfinder yn canolbwyntio, yn y dechrau cychwyn, ar ddiddordebau unigolion, a'r dull o weithio sydd orau ganddynt. Yna mae'r rhaglen yn cydweddu y gofynion cynnar hyn gyda swyddi, gyrfaoedd neu addysg bellach yn nhermau pynciau neu gyrsiau.

DIWRNOD TRWYNAU COCH

A'r neuadd dan ei sang fe ddaeth nifer o ymgeiswyr i ddangos eu doniau yn y gystadleuaeth i ddarganfod myfyriwr/wyr mwyaf talentog Ysgol Brynrefail. Wrth gwrs, yr oedd yr holl elw yn mynd tuag at gronfa'r 'Diwrnod Trwynau Coch'.

Trefnwyd yr oll gan yr is brif fachgen, Ben Jones, a oedd wrth ei fodd gyda'r cyfanswm o £820 a gyfrannwyd tuag at Gronfa'r Trwynau Coch o weithgareddau'r diwrnod.

Fe ddaeth tri ar ddeg o ymgeiswyr ymlaen, yn unigolion ac yn grwpiau, ac fe benderfynwyd yr enillwyr ar y



gymeradwyaeth uchaf, sef Dafydd Long a William Morgan o flwyddyn 11.

Cafwyd cymeradwyaeth fyddarol i Dafydd Long am ei 'beatbocsio' a William Morgan oedd yn dawnsio i'r rhythmau.

L. D. OWEN
PENISARWAUN

**GWAITH ADEILADU
CYFFREDINOL**

**GWAITH CERRIG • DRYSAU
LLWYBRAU • FFENSIO • PATIO
AGOR SYLFEINI**

RHIF
SYMUDOL **07896739544**

**CEIR CYMRU
BETHEL (01248) 670451**

Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafellio mil o filliroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

CHWILOTA YMATEBION



Ymddiheuriadau am golofn fer y mis hwn, ond diolch i bawb o'r darllenwyr am ymateb i gymaint o'r gwahanol destunau a ymdangosodd eleni.

Trydan.

Mae'r ddadl ynglyn â pha ardal oedd yr olaf i dderbyn trydan yn parhau. Cafwyd galwad ffôn gan Mrs Helen Jones, Caernarfon (Bethel gynt) yn dweud fod Capel Cysegr, Bethel wedi cael cyflenwad trydan ym mis Awst 1937 a hynny yn dilyn ail-agor y capel yn dilyn gwaith atgyweirio sylweddol. Galwad ffôn arall gan Glyn Thomas, Caernarfon (Llanddeiniolen gynt), yn nodi mai yn ystod 1958 y daeth trydan i Landdeiniolen. Mae'n cofio'r polion yn cael eu gosod o Fethel i fyny tua'r Llan. Ychydig ddyddiau cyn i'r "Eco" fynd i'r wasg y mis hwn daeth galwad ffôn arall gan Eirwyn Williams, Cwm y Glo yn adrodd mai yng ngwanwyn 1958 y daeth trydan i ardal Penllyn, Bwlch Gwnnog a'r Clegir. Gosodwyd y polion ar hyd lethrau isaf cefn Du o ardal Tan y Coed heibio i'r Parciau Gleision ac i'r Clegir. Yn yr un flwyddyn hefyd, meddai roedd y bibell nwy yn cael ei gosod ar draws tir y Llwyncoed i gyfeiriad Llanberis. Ai dyma felly, ddiwedd yr hen waith nwy yn Llanberis?

Mae'n weddol amlwg bellach fod y rhan fwyaf o ardalocdd y fro wedi derbyn cyflenwad trydan erbyn diwedd y pumdegau, ac mai ambell i dy neu fferm anghysbell yn unig oedd ar ôl. Mae'n syndod meddwl mai hanner canrif yn unig yn ôl sydd ers hynny, a'r fath newidiadau a weliwyd yn ei

sgil mewn cyn lleied o amser.

Damwain Gallt y Foel.

Fel roedd yr "Eco" diwethaf ar fin mynd i'r wasg daeth llythyr gan Margaret Cynfi, Deiniolen yn rhoi mwy o wybodaeth am y ddamwain bws ar Allt y Foel. Conductor y bws oedd Meurig, a briododd yn ddiweddarach ag Isabel, cyfnither i Margaret Cynfi. Pan sylweddolodd fod y bws allan o reolaeth, gorweddodd ar ei hyd ar lawr y bws, a doedd o na'r dreifar ddim gwaeth. Ond lladdwyd merch ifanc o'r enw Katie Williams, Fron Deg. Roedd hi yn chwaer i Mrs Harriet Davies (gwraig Billy Davies, arweinydd y band), ac yn chwaer hefyd i Miss Maria Williams a fu'n brifathrawes yng Ngharmel. Chwaer arall oedd Mrs Matheson, mam Connie a Jinnie a anfonwyd yn ôl i'r ardal fel ifaciwis dros gyfnod y rhyfel. Roedd brawd iddynt, Dic, yn ddreifiar i gwmni Crosville. Gall gadarnhau fod mam Katie yn sefyll wrth y drws a gweld y ddamwain yn digwydd.

Symud defaid.

Soniais beth amser yn ôl am hafotai, a'r arfer o symud yno dros gyfnod yr haf. Diflannodd yr arfer hwnnw ers cantoedd, ond parhaodd yr arfer o symud defaid o borfa frasach llawr gwlad yn y gaeaf yn ôl i borfa'r mynydd yn ystod yr haf. Rhain Williams, Caerdydd (Llanberis gynt) sy'n cofio hynny'n digwydd, fel yr adroddodd mewn llythyr diweddar. Byddai'r bugeiliaid yn cerdded y defaid drwy bentref Llanberis o gyfeiriad caernarfon. "Pan glywn hwy yn breffu byddai pob plentyn yn cario oen drwy'r

YSGOL GANOL LLANRUG



Pan sefydlwyd Ysgol Brynrefail yn Llanrug, peidiodd yr ysgolion canol a bod, a daethant yn ysgolion cynradd, gan fod pawb bellach yn cael mynychu'r ysgol uwchradd newydd.

Anfonwyd y llun o drip Ysgol Ganol Llanrug gan Mrs Mona Thomas (Roberts gynt). Yn y llun gwelir:

Rhes gefn: Brian Jones, Crawia, Bryn Lewis, Nan Llystyn Williams, Leslie Larsen, a fu'n athro yn yr ysgol am flynyddoedd, a Mona Roberts. Yn sefyll o flaen yr athro mae Margaret Jones, Beryl Thomas a Johnnie Evans. Y ferch gyda'i phen yn unig yn y golwg yw Megan Thomas. Does dim enwau ar gyfer y ddau fachgen yn y blaen ar y chwith a'r dde eithaf. Ond ym mhle tynnwyd y llun?

pentref at y Fictoria cyn ei roi yn ôl i'w fam. Doedd y defaid ddim yn fodlon, a chai'r plant eu cornio. Roedd ogle' defaid ar bawb yn mynd adra, a'r mamau'n dwrdio!" Dim ond rhyw bedair gwaith y mae cof gan Rhian am hyn yn digwydd, a daeth lori i gario'r defaid i'r mynydd wedyn.

Enwau Pyllau a Llynoedd.

Diddorol oedd darllen colofn 'Ar Ben Arall y Lein' y mis diwethaf a gweld fod arwyddion i'w gosod ar lannau'r afon (Rhythallt rhwng Penllyn a Phonrhythallt, Saint o Bontrythallt i'r môr). Er i mi dreulio fy mhientyndod yn chwarae ar lan yr afon ym Mhonrhythallt, doedd yr enw Llyn Tomos Lewis ddim yn gyfarwydd i mi. Yr enwau a ddefnyddiem ni ar y pyllau o'r Bont i Crawia oedd Llyn Du a Llyn Du

bach, Llyn Pysgod bach (sydd bellach wedi ei lenwi), Pwll Sesbwl, Fflat Cefn Rhuddallt,

Llyn Garreg fawr, Fflat Cefn Hogia, Pwll Rhaead/Rhuad, Rhaed/Rhuad, Llyn Garreg Dorth, Pwll Garreg Ll'godan, Llyn Doctor a Llyn Tywod. Mae'n bosibl fod enwau'n cael eu bathu o'r newydd o genhedlaeth i genhedlaeth wrth gwrs.

Magic Lantern gynnar.

Anfonwyd y tocyn gan Eryl Roberts, Llanrug. Roedd ym meddiant ei thad, y diweddar Llew Hughes, Cwm y Glo, ac y mae'n hysbysebu "arddangosiad ysblenydd" yn Ysgol Bryn Eryr, Llanrug. Roedd yn arferol cynnal budd gyngherddau ar gyfer gwahanol unigolion oedd wedi dioddef damweiniau yn y chwarel, neu'n dioddef o salwch tymor-hir, ac yn analluog i gynnal eu teuluoedd. Byddai cefnogaeth dda i'r fath gyngherddau gan gyfeillion a chymdogion y dioddefwyr.

Ond yn Ysgol Bryn Eryr, nid budd gyncrdd a gynhaliwyd, ond sioe ffilmiau gynnar, un a

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



YSGOLDY BRYNERYR.

RHODDIR

ARDDANGOSIAD YSBLENYDD O DISSOLVING VIEWS

GYDA'R OXYHYDROGEN LIGHT,

Yn yr Ysgoldy uchod, gan

R. D. WILLIAMS, Ysw., Cyfreithiwr, Caernarfon,

NOS SADWRN, CHWEFOR 23, 1889.

Cenir amryw Donau yn ystod y Cyfarfod.

Yr elw at gynorthwyo Ellen Hughes, Talgwynedd, Cwmyglo.

TOCYN-CHWECHEINIOL

Gwenlyn Evans, Argraffydd]

fyddai'n sicr o ddenu llond yr ysgol i weld y "dissolving views". Pictiwr nos Sadwrn lleol, a hynny mor gynnar â 1889 yn Llanrug!

Yr oxyhydrogen light a ddefnyddiwyd i ddangos y lluniau, a dyma'r math peryclaf. Bu llawer damwain (rhai'n aneuol) wrth ddefnyddio'r dull hwn, ond mae'n debyg nad oedd cynulleidfia Cwm y Glo a Llanrug yn ymwybodol o hynny ar y pryd. Ellen Hughes, Talgwynedd, Cwm y Glo oedd i'w chynorthwyo gyda budd y

noson, ond hyd yma, methais a darganfod unrhyw wybodaeth amdani na pham yr oedd yn anghenus.

Clwy traed a'r genau.

Un cywiriad bychan ynglyn â'r mis diwethaf. Yn 1957 y daeth y clwy i'r ardal, gan dorri allan yn y Bryngwyn a lledu'n fuan drwy'r fro.

Dyna'r cyfan am y mis. Cofiwch anfon unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515)

UN FUNUD FACH

WASTAD AR Y TU FAS

Does gen i ddim byd yn erbyn 'sgotwrs. Mewn gwirionedd, mae gen i ffrindiau da sy'n 'sgota. A thros y blynyddoedd, mi fûm i'n ddigon diolchgar am 'sgodyn da, ffres a ddaliodd un neu ddau ohonyn nhw. Ond fedra i yn fy myw â deall pa bleser sydd i'w gael o sefyll ar lan neu yng nghanol afon am oriau heb ddal dim ond annwyd. Ac oes, mae'n rhaid i mi gyfaddef mai dirgelwch llwyr i mi o hyd yw'r gwahaniaeth rhwng un wialen neu un bluen a'r llall. Rhwng y rhwyng dau 'sgotwr, a buan iawn y daw'n amlwg mai fi yw'r pysgodyn sydd allan o'r dŵr!

Mae pawb ohonom, mae'n debyg, yn teimlo'n ddieithr mewn rhai sefyllfaoedd. Mae'n ddigelwch llwyr i rai sut all eu ffrindiau wirioni efo criced. Mae eraill yn methu'n glir â deall sut all neb fwynhau rhedeg marathôn. Ac mae'n siŵr gen i fod yna ddigon o bobl sy'n cael trafferth i weld pa bleser a gaiff yr un ohonom mewn oedfa'r dyddiau hyn! Mor rhwydd yw teimlo nad ydym yn perthyn, a'n bod, chwedl y Trwynau Coch ers talwm, 'wastad ar y tu fas'.

Gallaf ddychmygu bod yr wythnos wedi'r Pasg yn hir iawn, o leiaf i Tomos. Roedd gweddill y disgyblion wedi gweld Iesu Grist yn hwyr y nos Sul y cododd Iesu o'i fedd. Ond doedd Tomos ddim hefo nhw, ac

mi wrthododd gredu bod ei ffrindiau wedi ei weld. Ar hyd yr wythnos honno, oni fyddai llawenydd y lleill yn ddigelwch iddo? Oni fyddai'r tangnefedd a deimlent yn ddieithr iddo? Oni fyddai'r hyder oedd ganddynt fod Duw am eu hanfon yn nerth yr Ysbryd Glân i gyhoeddi maddeuant i bechaduriaid yn anodd i Thomas ei amgyffred? Wythnos hir iawn oedd hi, ac yntau'n amharod i gredu'r newyddion da, a thrwy hynny'n amddifad o orfoledd a gobaith y disgyblion eraill.

A 'wastad ar y tu fas' fydd pawb sy'n gwrthod credu'r Efengyl. Heb blygu mewn edifeirwch, heb dderbyn Iesu Grist yn Waredwr, heb ymddiried ynddo fel Arglwydd, heb gredu geiriau'r Beibl, dirgelwch yw, a dirgelwch fydd y bywyd Cristnogol i bobl. Heb ffydd, wel neb werth y Groes a'r Bedd Gwag sydd mor ganolog i neges orfoleddus y Pasg. Heb gariad at Grist, ofer pob sôn am gysegro bywyd iddo. 'Heb Grist, heb oibaith a heb Dduw yn y byd.'

Ond diolch am hynny, docs dim rhaid i neb fod 'ar y tu fas'. Mae'r llawenydd a'r gobaith a'r sicrwydd a brofodd Tomos ymhén yr wythnos, ac a fu'n eiddo i Gristnogion yr oesoedd ers hynny, yn eiddo hefyd heddiw i bawb sy'n derbyn y gwahoddiad i gredu yn y Crist a fu farw ac a ddaeth yn ôl yn fyw.

JOHN PRITCHARD

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

A ninnau unwaith eto yn nhymor y Grawys, mae llawer ohonom yn teithio tua'r fynwent. Yr oedd yn braf iawn wrth fynd yno ar Sul y Fam, gweld y fynwent yn edrych mor dwi. Mae Cyngor Gwynedd i'w llongyfarch ar y gwaith da y maent wedi ei wneud ar y fynwent a chan fod y lle dan garped o flodau, yr oedd yn edrych ar ei gorau. Wedi dweud hyn y mae un peth ar goll, sef y dŵr. Gan ei fod wedi bod yno ers rhai blynyddoedd bellach, yr oedd pawb yn cymryd yn

ganiataol fod dŵr ar gael, ond er hyn mae yn rhaid talu diolch i Gyngor Gwynedd am y ffordd y maent wedi cael trefn ar fynwent Macpela Deiniolen. Diolch yn fawr iawn i swyddogion y Cyngor.

SUL Y PASG. Ar y dydd uchod fe fu Cyfarfod Pregethu Cefn y Waun yn Eglwys Ebeneser Deiniolen. Y cenad gwadd yw'r Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn. Bydd dau wasanaeth: am 10 y bore a 5 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb i'r ddau wasanaeth.

CYNGERDD PATAGONIA

Ym mis Hydref eleni, mi fydd tri o bobl ifainc Bethel yn wynebu antur fwyaf eu bywydau hyd yma. Bydd Gethin Wyn Griffiths, Manon Elwyn Hughes a Bronwen Price yn teithio i Batagonia bell i ymgymryd â gwaith gwirfoddol gyda disgyblion yn un o ysgolion y Wladfa.

Mae'r tri wrthi fel lladd nadroedd y dyddiau hyn yn ymlafnio i godi £2000 yr un i'w galluogi i dalu eu treuliau i fynd i Batagonia. Eisoes, mae Bronwen wedi cynnal ocsiwn addewidion ac mae Gethin yn cynnal gig yn y Clwb Rygbi yng Nghaernarfon, nos Iau, Ebrill 21 am 7.30 o'r gloch gyda phris mynediad yn £6 (a'r tocynnau ar gael ganddo ef, Palas Print a Na-Nog). Mae Manon Elwyn, sy'n 17 oed, wedi bod wrthi'n brysur tu hwnt yn trefnu cyngerdd mawreddog sydd i'w gynnal yn Neuadd Ysgol Brynrefail nos Fercher, Mai 10, am 7 o'r gloch. Cyflwynir eitemau gan Bronwen Price a Sioned Webb,

Siôn Elwyn a Lois Eifion, Siân ac Emyr Gibson, Gwyn Owen, Piantel (sef Annette Bryn Parry a Dylan Cernyw), disgyblion Ysgol Gynradd Bethel, Elfed Morgan Morris, Lleisiau'r Mignedd, a Seindorf Arian Ieuenctid Deiniolen. Pris mynediad ydi £5 (un pris i bawb) ac mae'r tocynnau ar gael o Swyddfa Ysgol Brynrefail, Post Bethel, o Na-nog a Palas Print yng Nghaernarfon, o gartref Manon (Bryn Ogwen, Bethel) neu drwy ffonio 01248 670517 neu 07717610285

Yr actor a'r donoliwr Mici Plwm fydd yn cyflwyno'r artistiaid yn ei ddull hwyliog unigryw ei hun ac nid oes amheuaeth na chawn noson i'w chofio. Hoffai Manon nodi bod pob un sy'n cymryd rhan yn y cyngerdd yn rhoi eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim er mwyn ei helpu i gyrraedd ei tharged o £2000. At hynny, mae'n hynod ddiolchgar i bawb yn yr ardal - a'r tu hwnt - sydd wedi rhoi rhoddion ariannol iddi tuag at ei chostau.

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



**Blodau
Lieneke**

**Blodau Priodas
Priodferch
Lleoliad • Byrddau**

Gae Rhyddau Pontrug
Caernarfon LL55 2TN

Symudol (07510 511 631

Gwefan- <http://www.blomstervill.no>
E-bost- blomstervill@robin.no

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Y SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Mawrth y Clwb Cant oedd: 1. C. Evans, 9 Nant y Glyn; 2. D.W. Thomas, Bron y Nant; 3. M.W. Williams, Talybont.

PLAID CYMRU. Enillwyr y Clwb Cant mis Ebrill oedd: 1. Rolant Wyn; 2. Meirwen Lloyd. **DIOLCHIADAU.** Dymuna Mai a Gwyn Davies ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiaid, blodau, arian ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Hefyd fe ddymuna Iolo ac Aislinn Eilian, Iwerddon (Bryn Moelyn) ddiolch o galon am bob cefnogaeth yn noddi Aislinn ar ei thaith i Affrica fis Mehefin i godi arian at Ymchwil Cancr. Bydd yn cerdded am 10 diwrnod yn Tanzania ac roedd angen codi £3,500 i'r Ymchwil cyn cychwyn. Diolch yn fawr iawn. Derbyniodd £500 gan bobl lleol. **PRIODAS AUR.**

Llongyfarchiadau mawr i John a Menna Williams, Fferm Minffordd ar ddathlu eu Priodas Aur ar 14 Ebrill. Pob dymuniad da i chi a mwynhewch eich gwyliau arbennig mis nesaf.

Dathlu eu Priodas Arian mae Robin ac Evelyn Williams, hanner ffordd at gyrraedd Dad a Mam! Pob bendith i chithau a dymuniadau gorau.

MARWOLAETH. Bu farw Mrs Betty Morgan, Fferm Llwyn Bedw, Bethel gynt, yn dilyn gwaeledd hir. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd, yn enwedig Siân, sy'n byw yn Rhes Rhyddallt.

BORE COFFI HAFAN ELAN. Mae Boreau Coffi wedi cychwyn bob dydd Mercher o 10.15 ymlaen yn Hafan Elan. Mae croeso mawr i bensiynwyr y pentref a'u ffrindiau i ymuno. Dewch ymlaen i gael paned a sgwrs.

BRYSIWCH WELLA. Cofion

gorau at Elwyn Roberts, 1 Cefn Elan, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella.

Anfonwn yr un dymuniad da i bawb sydd ddim yn dda.

BABI NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i Ann a Now Griffiths, Hawddamor, ar ddod yn daid a nain unwaith eto i Iago, mab bach newydd i Nia a Deiniol a brawd i Ianto. Pob dymuniad da i chi i gyd fel teulu.

YSGOL GYNRADD

Llongyfarchiadau i Mrs Rhian Jones (athrawes Blwyddyn 6) a Dyfrig ar enedigaeth Osian Llŷr, brawd bach i Cai. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Bu'n fis prysur iawn yn nhermau chwaraeon yn yr ysgol a bu sawl cystadleuaeth:

Bu tim pêl-rwyd [genethod Blwyddyn 5 a 6] yn llwyddiannus gan ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan enethod Ysgol Brynrefail sydd yn dilyn cwrs BTEC mewn Chwaraeon. Diolch i Miss Catrin Jones am eu hyfforddi.

Bu'r bechgyn (Blwyddyn 5 a 6) yn cymryd rhan mewn cystadlaethau rygbi a pêl-droed a drefnwyd gan yr Urdd. Diolch i Mr Wyn Griffith a Mr Geraint Iwan am eu hyfforddi.

Bu Blwyddyn 1 a 2 yng Nghae'r Gors, Rhosgadfan, yn cael blas ar sut fyddai diwrnod golchi yng nghyfnod Oes Fictoria.

Bu Georgina a Ceri (Blwyddyn 6) yn llwyddiannus ar arholiadau'r delyn. Da iawn a daliwch ati!

Mae rhai o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 wedi cael hwyl fawr yn treulio wythnos ym Mhlas Menai yn cael blas ar bob math o chwaraeon dŵr, ac wedi mwynhau cu hunain yn ofnadwy!

Yn Eisteddfod Sir yr Urdd bu Tomi Llewelyn (Blwyddyn

2) yn fuddugol ar yr Unawd dan 8 oed, a chystadleuaeth yr Unawd Cerdd Dant. Daeth ei chwaer, Leisa Gwennllian (Blwyddyn 4) yn fuddugol ar yr Unawd 8-10 oed. Pob lwc i'r ddau ohonynt yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe.

Daeth Elain Elis (Blwyddyn 4) yn ail yng nghystadleuaeth Dawnsio Disgo Sir yr Urdd. Da iawn, Elain.

MERCHED Y WAWR. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Menna Williams.

Cychwynwyd y noson drwy ganu Cân y Mudiad. Llongyferchir Menna a John ar achlysur eu Priodas Aur, a llongyfarchwyd Eirianwen ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Ganwyd mab bychan arall i Nia, merch Ann Lloyd. Llongyfarchiadau i Ann ar ddod yn nain i Iago.

Cynhelir Chwaraeon y Rhanbarth nos Wener, 13 Mai, yn Neuadd Penygroes am 6.30. Bydd Arddangosfa Celf a Chrefft yn y Groeslon ar 17 Mehefin: nos Wener am 6.30 i'r rhai sy'n cystadlu a 7.30 i'r lleill. Bydd sgwrs gan Rhiannon Parry a Margaret Williams, Pandy Tudur. Pob dymuniad da i Ann Lloyd, Olwen Huws a Margaret a Jean, sy'n barod i gefnogi'r gangen.

Derbyniwyd gair o ddiolch gan Bwyllgor Cylch yr Urdd am wasanaeth y gangen yn y caffi yn ystod Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail. Dymunir diolch i'r aelodau am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth. Trefnir Cyrsiau Sgwennu yn Tŷ Newydd o 29 Ebrill i 1 Mai, pryd y canolbwyntir ar y Stori Fer.

Mai 20-22. Testun a Thirlun fydd dan sylw gyda'r tiwtor Eurig Salisbury, a chyfranwyr craill fydd Yr Athro Gwyn Thomas a Twm Elias.

Cynhelir Penwythnos Preswyl Merched y Wawr a'r Clybiau Gwawr ar Medi 9-11 yng Ngholeg Prifysgol Bangor. 'Bwrlwm a Bantams'. Pris £160. Dyddiad cau - 7 Gorffennaf.

Bu rhai aelodau ym Meifod, Bontnewydd ar 2 Ebrill yng Nghinio'r

Llywydd Cenedlaethol, Mererid James. Roedd arddangosfa chwaethus yno o esgidiau gan enwogion fel Siân Lloyd, Margaret Williams, Rhian Roberts ac eraill ar gyfer y prosiect casglu esgidiau, cetrisc inc, ffonau symudol a stampiau er budd Achub y Plant. Mae'r casglu yn mynd yn ei flaen yn rhagorol. Wedi cinio ardderchog cafwyd sgwrs ddifyr gan Mari Gwilym, cyn aelod o Theatr Ieuencid Genedlaethol Llundain, actores a chyflwynwyd ac mae wedi ysgrifennu llawer o sgriptiau a dramâu ar gyfer y theatr, radio a'r teledu. Yn iaith unigryw y Cofi bu'n olrhain ei hanes o fyw yng Nghaernarfon ac, yng ngeiriau Meirion MacIntyre Huws, mae'n gwybod:

*Mae'n flêr a does na'm seren
heno i mi uwch fy mhen,
Dwi'n geiban, ond yn gwybod
mai yma wyf innau i fod.*

Yn dilyn cafwyd adloniant hyfryd gan Robat Arwyn. Fel Mari Gwilym, yntau'n enedigol o Ddyffryn Nantlle, graddiodd mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd ac yna ennill Diploma mewn Llyfrgellyddiaeth yn Aberystwyth. Mae bellach yn Brif Lyfrgellydd Cyngor Sir Dinbych ac wedi cyhoeddi deg cyfrol o ganeuon. Mwynhawyd ei ddatganiad o Benedictus ar y piano a'i ddatganiad lleisiol o Yfory, Anfonaf Angel, Caraf Di o Bell a Cana o dy Galon. Wedi'r diolchiadau canwyd Cân y Mudiad ac yna ffarwelio wedi diwrnod pleserus dros ben.

Bu rhai o aelodau'r gangen yng Ngŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars, Bangor ar Sadwrn, 9 Ebrill. Yn yr un modd fe fwynhaodd pawb y diwrnod gyda chinio arbennig fel yr arfer ac adloniant o'r safon uchaf gan aelodau o fand jazz Ysgol Tryfan, sioe ffasiwn 'So

Parhad ar dudalen 13

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,

Selsig cartref

Cigodd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

Caffi Caban

ar Agor


9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheddi gweithredol gynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Gynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

**Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG**

**Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901**

Parhad LLANBERIS

YSGOL DOLBADARN

Ymweliad Ysgol Y Bannau. Braf oedd cael croesawu disgyblion Blwyddyn 4 Ysgol y Bannau, Aberhonddu atom unwaith eto. Roeddynt ar gwrs preswyl yng Nghanolfan Tan Y Bwlch ac ar ymweliad â Llanberis.

Dringo'n Uchel. Bu dwy chwaer o'r ysgol, Zoe a Ruby, yn cystadlu mewn cystadleuaeth ddringo. Yn dilyn eu llwyddiant yn lleol bu'r ddwy yn cystadlu ar lefel Cymru gyfan. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonynt.

Cymdeithas Rhieni a Chyfeillion. Cynhelir y Ras Hwyaidd eleni ar 18 Mai. Mae croeso i bawb ddod draw at y Ganolfan erbyn 6 o'r gloch i weld cychwyn y ras.

Priodas Hapus. Pob Ddymuniad da i Mr Gareth Jones a Miss Nia Roberts sy'n priodi yng Nghyprus dros y Pasg.

Gweithgareddau Awyr Agored. Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 dreulio'r bore yn 'Rhaffau ac Ysgolion' yn ddiweddar. Yn y prynhawn cafodd y disgyblion weithgareddau sgiliau tîm dan ofal Mr Dilwyn Sanderson-Jones o gwmni 'Mentro Môr a Mynydd'. Cafodd pawb



ddiwrnod i'w gofio!

Ymweliad y Pasg i Goleg y Bala. Bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn dilyn Stori'r Pasg yng Ngholeg y Bala. Cawsant groeso mawr yn y Coleg a diwrnod i'w gofio.

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

NANT PERIS

PWYLLGOR APÊL
LLANBERIS A NANTPERIS
- EISTEDDFOD YR URDD
2012

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn y Ganolfan am 7 o'r gloch dydd Mawrth 17 Mai. Mae croeso i unrhyw un ddod i'r cyfarfod hwn.



**POSH
PAWS**



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10**

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Community
Gist
Gymunedol

**Awydd £1,000 tuag at eich
prosiect chwaraeon
cymunedol?**

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,000 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Cysylltwch â:
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu
Chwaraeon
01758 704 054
Rhianeleridobson@gwynedd.co.uk



GWASANAETH GOFAL CARTREF
Caredig cyf

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

- ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL
- GOFAL PERSONOL-BATHIO
- CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU
- EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS
- GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN
- CEFNOGI POBL
- CYSYLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn recrire yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC • Ffordd y Parc • Parc Menai • Gwynedd LL57 4FG
FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601
EBOST- post@caredig.com

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

**Stôf Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ**

CYSYLLTWCH Â



JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO • Carmel • Gwynedd
01286 882160

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

DALIER SYLW. Dyddiad Cymanfa'r Annibynwyr wedi newid i 4 Mehefin.

Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Deiniolen a Chwm y Glo bawn Sul, 4 Mehefin am 2.00 o'r gloch yn Neuadd Gymuned Penisarwaun.

NI threfnir bws, mae digon o le i barcio ar fuarth yr ysgol. Arweinydd y Gân yw Gareth Jones, Llanberis. Bydd Te Bach i ddilyn i bawb sy'n dymuno aros.

YSGOL GYMUNED.

Llwyddiant. Rydym fel ysgol yn ymfalchio yn y llwyddiant a gafodd y plant yn Eisteddfod Sir yr Urdd yn Neuadd Pritchard Jones Bangor dydd Sadwrn, 26 Mawrth. Cafwyd cyntaf gyda'r Gân Actol, Parti Unsain a'r Côr ac ail gyda'r Parti Deulais. Cafodd Magi y 3edd wobwr am Lefaru i Bl.5 a 6, ac yn ogystal cafodd y wobwr gyntaf gyda'i gwaith celf yn y Sir ac yn awr bydd y gwaith yn mynd ymlaen i'w feirniadu yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd a dymunwn y gorau i bawb wrth gystadlu yn Abertawe ym mis Mehefin. Byddwn yn trefnu gweithgareddau i godi arian tuag at y costau a buasem yn ddiolchgar iawn o dderbyn cefnogaeth gan bawb.

Adran Urdd yr Ysgol. Aeth nifer o'r aelodau ar ymweliad â'r Ganolfan Ailgylchu yn Stad Ddiwydiannol Cibyn Caernarfon bawn dydd Llun, 4 Ebrill.

Taith Gerdded Noddedig. Cafodd pawb hwyl garw wrth ymuno gyda llawer o blant o ysgolion eraill yn y cylch fore dydd Gwener, 8 Ebrill. Roedd pawb yn cerdded o Faes Parcio Morrisons yng Nghaernarfon ar hyd Lôn Eifion tuag at Plas Menai. Roedd y tywydd yn fendigedig a diolch i Mr Alun

Roberts am drefnu ac i bawb am gasglu arian noddi. Bydd yr arian yn mynd tuag at darged Penisarwaun a Brynrefail ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012. Roedd rhai o'r plant wedi bod yn brysur iawn yn gwneud baner gyda logo'r ysgol arni i'w defnyddio ar y daith. Diolch i bawb a fu wrthi yn eu cynorthwyo.

Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Eryri 2012. Ymunodd rhai o'r disgyblion ynghyd â'u rhieni a staff yr ysgol yn y miri ar strydoedd Caernarfon ac yn y Castell fore Sadwrn, 9 Ebrill. Roedd yn braf gweld y faner yn cael ei chario yn cynrychioli ein hysgol.

Trip. Treuliodd dosbarth y Babanod ddiwrnod yn Fferm y Foel ddydd Mercher, 13 Ebrill fel rhan o'u thema 'Y Fferm'.

Disgo. Cynhaliwyd disgo i'r ysgol gyfan bawn dydd Gwener, 15 Ebrill. Dosbarth Mrs Ray oedd wedi trefnu fel rhan o'u thema 'Bywyd yn y 60au' a cafodd pawb hwyl i ddiweddu'r tymor.

Frân Wen yn ymweld â'r ysgol. Daeth Mrs Shirley Owen i drafod gyda disgyblion Bl.5 a 6 sut i fynd ati i greu stori/drama gyffrous er mwyn ei pherfformio gan Gwmni Frân Wen. Roedd yn bwysig ein bod ni fel disgyblion yn defnyddio dychymyg creadigol er mwyn llwyddo i greu stori ddiddorol yn dwyn y teitl 'Swyn y Coed'. Cawsom lawer o hwyl yn cydweithio gyda Mrs Owen yn trafod a mynd i mewn i wahanol gymeriadau ar y gadair boeth. Roeddem yna yn holi cwestiynau i ddisgyblion oedd yn eistedd yn y gadair yn eu tro. Hefyd roeddem yn cadw nodiadau ar bapur A3 ac yna dod â'r syniadau i gyd at ei gilydd. Hoffem ni ddiolch ar ran disgyblion blwyddyn 5 a 6 am y profiad a gawsom gyda

Mrs Owen ac roedd hefyd yn help i ni fyd ati i greu ein stori ein hunain. Llawer o ddiolch.

Magi Tudur a Catrin Walker YSGOL SUL BOSRA. Wedi bwrwlwm Sul y Mamau a chreu cardiau'r Pasg, bu'r aelodau, athrawon a rhieni ar drên fach Llyn Padarn fore Sul, 17 Ebrill. Derbyniodd bob plentyn ŵy Pasg ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Diolch i Ffiona am wneud y trefniadau a diolch i mr Evie Jones a'i chwiorydd, Nancy a Dilys, am eu caredigrwydd hwythau.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, 8 Mai. Bydd digon o waith o'u blaenau gyda Chyma'nfa'r Annibynwyr yn Neuadd Gymuned yr Ysgol bawn Sul, 4 Mehefin am 2.00 o'r gloch (sylwer ar y newid dyddiad). Er mwyn cael cymdeithasu gydag ysgolion Sul Cylch Deiniolen a Chwm y glo, darperir Te Bach i'r plant a phawb sy'n dymuno ymuno.

Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Ebeneser Caernarfon bawn Sul, 11 Mehefin am 2.00 o'r gloch. Bydd Te Bach yno hefyd er mwyn cymdeithasu ag Ysgolion Sul Seilo, Tregarth, ac Ysgol Sul Ebeneser, Caernarfon. **PWYLLGOR NEUADD.** Tynnwyd Clwb Cant Ebrill a'r enillwyr lwcus oedd: Dafydd Owen, Brynhyfryd a Gwen Roberts, Bron y Gaer.

Cynhelir Pwyllgor nos Lun, 9 Mai am 7.30 i drefnu gweithgareddau pellach.

E I S T E D D F O D GENEDLAETHOL YR URDD 2012. Atgoffir chwi am y pwyllgor, nos Lun, 9 Mai am 7.00 o'r gloch yn yr Ystafell Gymuned. Aeth cefnogaeth gref o'r pentref ar Orymdaith yng Nghaernarfon fore Sadwrn, 9 Ebrill, ac mae darogan am Eisteddfod i'w chofio ym Mharc Glynllifon y flwyddyn nesaf.

GWELLHAD. Gobeithio fod pawb ohonoch sydd wedi bod yn sâl yn teimlo'n well yn y tywydd bendigedig a gafwyd ym

Mawrth ac Ebrill. Ein cofion at Eiriona, Glyn Euron, gan obeithio ei bod hithau'n well erbyn hyn.

PEN-BLWYDDI ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Gwynfor Roberts ar achlysur pen-blwydd arbennig ar 21 Ebrill ac i Mari Deiniol, 12 Bryn Eglwys, a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn un ar hugain ar 11 Mai. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch. **EISTEDDFOD BENTREF 2011.** Cynhelir Noson Goffi nos Iau, 12 Mai am 6.30 yn y Neuadd Gymuned. Bydd cyfle i rannu Testunau'r Eisteddfod a gynhelir nos Wener, 1 Gorffennaf. Beirniad Cerdd fydd Ken Huws, Pennaeth Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog a'r beirniad Llefarydd fydd yr actores, Mari Gwilym Caernarfon. Edrychir ymlaen am noson o gystadlu brwd.

DIOLCH. Dymuna Mrs Blodwen Mowll ddiolch yn fawr i'w holl ffrindiau am eu dymuniadau da, am yr anrhegion a'r llu cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Diolch yn arbennig i'r teulu am noson hwyliog annisgwyl ac am y caredigrwydd tuag ati bob amser.

Yr un modd, dymuna Dic Parry, Tawelfa, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chyn-ddisgyblion ac athrawon Ysgol Brynrefail am y galwadau ffôn, y llu cardiau ac anrhegion ar achlysur ei ben-blwydd arbennig yntau. Llawer o ddiolch i Myfanwy a'r teulu am y dathlu gwyh ym Mhortmeirion ac yna ymhlith ffrindiau yn y Caban, Brynrefail nos Sadwrn, 9 Ebrill. Diolch o galon i bawb.

Y CARNIFAL. Cynhelir gweithgareddau'r Carnifal eleni o Orffennaf 4 hyd 10fed.

EGLWYS SANTES HELEN.

Yn dilyn gwasanaethau'r Groglith a'r Pasg, diolch i bawb am eu rhodd o flodau ar gyfer addurno'r Eglwys ac am bob cymorth gyda'r gwaith.

GYRFAOEDD CHWIST.

Cynhelir y Gyrfaoedd bob nos Fawrth am 7.30 yh.

DAWNSIO LLINELL.

Cynhelir Dawnsio Llinell yn Neuadd yr Eglwys bob nos Iau am 7.30. Croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb. **BOCSIO CIC.** Mae Clwb Bocsio Cic Dinorwig yn awr yn cael ei gynnal yma yn Neuadd yr Eglwys bob nos Wener am 7.00yh.

ARHOLIADAU. Pob dymuniad da i bob un ohonoch sy'n sefyll yr amrywiol arholiadau yn ystod y misoedd nesaf. Pob hwyl ar yr adolygiadau - fe fydd y gwaith caled yn siŵr o ddangos ffrwyth. **PASG HAPUS 2011.**

Dymunir Pasg a gwyliau hapus i bawb ohonoch.

SMALA
www.smala.net

2,000
o gardiau
busnes
lliw
llawn

£80 + TAW

01286 660 364
07987 654 251

Yn y Ganolfan Llanberis
Nos Fercher 18fed. o Fai am 8 o'r gloch
Dan Arweiniad Dei Thomas

Llausio Cyfrol
"Cerddi'r Garreg Ateb"
Sef Cerddi. Ynghyd A Lluniau Perthnasol
O Ddyffryn Peris A'r Fro
San Norman Closs Fachwen

Bydd y Gyfrol ar werth ar y Noson ac mewn siopau lleol y pris yw £5.
Fe fydd lluniaeth ysgafn ar gael a bydd elw'r gwerthiant i'w rhannu
rhwng Plas Pengwaith, ac Apel Llanberis tuag at Eisteddfod yr Urdd, Eryri

Parhad LLANBERIS

YSGOL DOLBADARN

Ymweliad Ysgol Y Bannau. Braf oedd cael croesawu disgyblion Blwyddyn 4 Ysgol y Bannau, Aberhonddu atom unwaith eto. Roeddynt ar gwrs preswyl yng Nghanolfan Tan Y Bwlch ac ar ymweliad â Llanberis.

Dringo'n Uchel. Bu dwy chwaer o'r ysgol, Zoe a Ruby, yn cystadlu mewn cystadleuaeth ddringo. Yn dilyn eu llwyddiant yn lleol bu'r ddwy yn cystadlu ar lefel Cymru gyfan. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonynt.

Cymdeithas Rhieni a Chyfeillion. Cynhelir y Ras Hwyaidd eleni ar 18 Mai. Mae croeso i bawb ddod draw at y Ganolfan erbyn 6 o'r gloch i weld cychwyn y ras.

Priodas Hapus. Pob Ddymuniad da i Mr Gareth Jones a Miss Nia Roberts sy'n priodi yng Nghyprus dros y Pasg.

Gweithgareddau Awyr Agored. Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 dreulio'r bore yn 'Rhaffau ac Ysgolion' yn ddiweddar. Yn y prynhawn cafodd y disgyblion weithgareddau sgiliau tîm dan ofal Mr Dilwyn Sanderson-Jones o gwmni 'Mentro Môr a Mynydd'. Cafodd pawb



ddiwrnod i'w gofio! *Ymweliad y Pasg i Goleg y Bala.* Bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn dilyn Stori'r Pasg yng Ngholeg y Bala. Cawsant groeso mawr yn y Coleg a diwrnod i'w gofio.

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

NANT PERIS

PWYLLGOR APÊL
LLANBERIS A NANTPERIS
- EISTEDDFOD YR URDD
2012

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn y Ganolfan am 7 o'r gloch dydd Mawrth 17 Mai. Mae croeso i unrhyw un ddod i'r cyfarfod hwn.



POSH
PAWS



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Community
Gist
Gymunedol

Awydd £1,000 tuag at eich
prosiect chwaraeon
cymunedol?

Mae'r Gist Gymunedol yn
cynnig grant o hyd at £1,000
i gefnogi cynlluniau
chwaraeon a
gweithgareddau egniol
newydd neu ychwanegol yn
y gymuned.

Cysylltwch â:
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu
Chwaraeon
01758 704 054
Rhianeridobson@gwynedd.co.uk



GWASANAETH GOFAL CARTREF
Caredig cyf

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

- ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL
- GOFAL PERSONOL-BATHIO
- CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU
- EISTEDD YN YSTOD Y DYDD A GYDA'R NOS
- GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN
- CEFNOGI POBL
- CYSYLLTU A GWASANAETHAU ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn recriwtio yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC • Ffordd y Parc • Parc Menai • GWYNEDD LL57 4FG
FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601
EBOST- post@caredig.com

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyndedig drwy Warant 3420271

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

Stof Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ
CYSYLLTWCH Â



JOHN HUGHES a'i FAB

IARD LO • Carmel • Gwynedd

01286 882160

CHWARAEON

RASIO MYNYDD

COLLI ARWYDDION!

Cafwyd cychwyn anhygoel i gyfres Rasys Mynydd Nos Fawrth ym mhentref Y Fron. Ar noson oedd yn debycach i Dachwedd na dechrau'r gwanwyn, gyda niwl trwchus, glaw a gwynt cryf, daeth dros gant o redwyr ynghyd i redeg Ras Moel Tryfan. chysidro'r amgylchiadau, roedd yn rhyfeddol fod bron i ugain o blant wedi troi allan hefyd. Ond nid y tywydd fu'r unig broblem! Ychydig amser cyn i'r ras gychwyn, bu rhyw greadur di-synnwyr o amgylch cwrs y plant yn tynnu'r holl arwyddion a chyfarwyddiadau i lawr! O ganlyniad, doedd gan y plant ddim syniad pa lwybr i'w ddilyn, ond diolch i'r drefn, ac

er gwaethaf y tywydd, daeth pob un yn ôl yn ddiogel. Y nos Fawrth ganlynol daeth 112 o redwyr i gystadlu ar y Foel Lus uwchben Penmaenmawr, a dychwelyd i'r Fron ar gyfer Ras Mynydd Mawr yr wythnos wedyn. Erbyn i'r rhifyn hwn o'r "Eco" eich cyrraedd bydd pedwaredd ras y gyfres wedi ei chynnal ym Mhendinas, Nant Peris, a chwech arall i'w cwblhau cyn diwedd y gyfres, sef Moel y Gest (Mai 10fed), Aber (Mai 24ain), Moelfre, Llanfairfechan (Mehefin 7fed) Y Gogarth (Mehefin 14eg) Tri Bryn Craig Llwyd, Penmaenmawr (Mehefin 21ain) gan ddiweddu ar Foel Eilio, Llanberis ar Fehefin 28ain.

Llais ar Fwrdd Rheoli Criced Cymru

Nodwyd dros y blyneddau gyfraniad Peter Evison o Gaeathro i sawl camp yn yr ardal o'i gyfnod pêl-droed gyda'r Darans, ei redeg mynydd a'r yrfa griced llwyddianus - mae'n dal i chwarae- dros 40 tymor gyda Bangor. Erbyn hyn mae Peter wedi ymddeol o'i waith dyddiol gyda'r Cyngor Sir, ond nid oes amser i hamddena. Mae Peter yn hyfforddwr criced o'r raddfa uchaf - Advanced Coach. Ar hyn o bryd mae'n cynorthwyo Nicola Williams, swyddog datblygu criced Môn/Arfon i roddi rhaglen ymweld ag ysgolion i drefn. Cysylltwch a'r ddau os ydych am dderbyn gwasanaeth hyfforddiant dan y cynllun. Ond, llongyfarchiadau hefyd i Peter am ei apwyntiad fel cynhyrchiolydd y Gogledd



fel llais Criced Ieuenctid ar Fwrdd Rheoli Criced Cymru. Diolch iddo am ei barodrwydd i lenwi'r swydd, ac yn sicr ni ellid cael llais mwy synhwylol ar ein rhan yng 'nghoridoriau grym.'



Ar Ben Arall y Lein

Pêl-droed. Rygbi. Criced. Hoci. Rhedeg. Pysgota. Beth bynnag y gamp mac rhyw wefr o hyd wrth i ddechrau tymor newydd agosáu. Ym myd y pysgota cawn adroddiadau cyson 'Ar ben arall y lein'. Gelsais gwmnï sawl pysgotwr - neu botshiar - yn ddiweddar, a theimlo eu siom fod yr afonydd yn isel ar ddechrau'r tymor, ond eto ni allai Mawrth 3ydd., dydd tanio tymor newydd ddod digon sydyn.

I'r llyn a'r merddwr llonydd - yw'r alwad
i'r heliwr afonydd,
a'r hen reddf yn bwrw'n rhydd
wialenni aflonydd.

CADW PETHAU'N Y TEULU!



Mae'r teulu Phillips o Benisarwaun yn dathlu achlysur unigryw. Y mae nifer o deuluoedd wedi dathlu gweld brodyr yn chwarae pêl-droed ond mae'n rhyfeddol gweld tri brawd yn chwarae i'r un tîm pêl-droed. Ond dyna ydi hanes Gethin, Matthew a Siôn Phillips, gyda dyrchafiad Siôn, yr ieuengaf, o'r ail dîm i dîm cyntaf Clwb Pêl-droed Llanrug Unedig.

A beth sydd a wnelo hyn i gyd ag Ysgol Brynrefail? Wel mae Siôn yn aelod o'r chweched dosbarth presennol ym Mrynrefail a'r ddau frawd yn gyn-ddisgyblion, Gethin ym Mhrifysgol Bangor a Matthew, erbyn hyn, yn ennill ei damaid fel Cemegydd.

Y GAMP LAWN

Ai dyna fydd y sefyllfa yng Nghyngair dardiau Caernarfon a'r Cylch eleni? Y dafarn dan sylw yw'r Bull yn Neiniolen. Mae traddodiad cryf o dimau cystadleuol yno ers sawl blwyddyn. Y tymor diwethaf 'ymfudodd' rhai chwaraewyr i dimau eraill, ond yn ôl i'r nyth maent wedi dychwelyd eleni. A'r tymor yn dirwyn i ben bydd y ddau dîm - yr A a'r B - yn camu ymlaen ar ddiwedd y tymor i dderbyn tlysau. Mae'r tîm A eisies wedi gwneud yn siwr o'r bencampwriaeth yn Adran Un gyda tair gêm o'u tymor yn weddill. Gyda tair gêm o'r

Gynghair 501 ar ôl, mae ganddynt fantais o ddau bwynt dros yr hen elynion Pen-nionyn. Mae'r tîm B eisies yn sicr o'r ail safle yn Adran Dau. Mae ganddynt gyfle da i ddiweddu'n ail yn y gynghair 501 hefyd. Erbyn i'r golofn weld golau dydd yna bydd y safleoedd wedi eu penderfynu'n derfynol. Gallai fod yn ddipyn o barti Pasg draw yn y Bull eleni. Tîm arall sydd yn chwysu wedi gaeaf hir o ymlafnio yw tîm pŵl Y Bedol. Maent wedi arwain ail adran cynghair Caernarfon ers bedwaredd gêm y tymor. Yna gyda'r 'boced olaf' yn nesau cafwyd 'rhediad' sâl, ac fe fydd rhaid ennill gêm olaf y tymor os am unrhyw obaith.

ADLAIS

Ai arwydd fy mod yn heneiddio yw fod tudalen arbennig yn y Daily Post yn cael mwy o sylw yn ddiweddar, a sylwi fel y dywedodd rhywun yn ddiweddar eu bod yn 'hel o'n corlan ni erbyn hyn.' Cofnodwyd marwolaeth Robert Jones o ardal Bethesda. Sawl Robert Jones ond dim ond un Bob Royal Oak. Pam ei gofnodi yn Eco'r Wyddfa? Wel, fe roedd Bob yn gysylltiedig ag un o'r gemau mwyaf hanesyddol yn hanes dyffryn Peris, a hynny drwy un weithred neu arwyddiad rhyfeddol. Bob oedd cadeirydd clwb Llechid Celts yn nhymor 1964-65. Cyfnod cryf yn hanes y Caernarfon and District, ond y tymor hynny roedd y ddau glwb Llanberis a Llechid yn ddios y ddau dim amatur cryfaf yng Nghogledd Cymru. Ac am dymor gafodd y Darans. Dan arweiniad Lal Jones, ennillwyd Cwpan Iau a Chwpan Amatur Gogledd Cymru. Yna cwpanau'r gynghair - yr Alves a'r Penrhyn. Ond beth am y gynghair? Roedd pob dim yn

dibynnu ar gêm olaf y tymor rhwng y Darans a Llechid ar Faes Padarn. Denwyd cannoedd yno - yn sicr torf fwya'r maes - a gôl Roger Owen yn rhoi'r tlls i Llechid gyda unig gôl y gêm. Roeddwn i yno, ac yn dal i gofio y torfeydd tu allan i'r Royal Oak yn Rachub pan ddychwelodd yr hogiau yn ôl 'adref'. Ond beth am Bob a'r arwyddiad? Drwy gysylltiadau roedd Bob wedi clywed hanes rhyw gôl-geidwad o Sowth o'r enw Murray Cook. Danfonwyd modur i'r De i nôl y gol-geidwad a'i ddanfôn yn ôl wedi'r gêm. Hyd heddiw cofir am berfformiad Cook y noson honno. Yn sicr, y Darans oedd y tîm gorau a chrewyd llu o gyflucun - ond ni ellid curo Cook. Gwnaed sawl arbediad rhyfeddol ac ennillwyd y gêm. Gyda llaw, yn ddiweddar cefais bleiser o wrando ar Arwel yn rhoi sgwrs ar gymeriadau pêl-droed y cyfnod - nid o reidrwydd chwaraewyr. Cafwyd noson i'w chofio, a braf fuasai cael y stracon wedi eu cyhoeddi. Beth amdani, Jôs - neu cofnodi rhai ohonynt yng ngholofnau'r Eco.